



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhagnodi ym maes Gofal Sylfaenol **Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan**

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2013

Cyfeirnod y ddogfen: 421A2013

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yngl n â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Philip Jones a Deirdre Dwyer.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n gryf ar arbedion cost byrdymor mewn perthynas â rhagnodi ym maes gofal sylfaenol ac er ei fod wedi integreiddio adnoddau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, rhagori ar ei dargedau arbedion a pherfformio'n dda o ran nifer o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, nid oes ganddo strategaeth ragnodi hirdymor i gynnal gwelliannau dros amser.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	5
Ein prif ganfyddiadau	6
Argymhellion	9

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio strategol 11

Nid oes strategaeth ragnodi ym maes gofal sylfaenol hirdymor ar waith a than yn ddiweddar mae cynlluniau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol wedi canolbwyntio'n gryf ar arbedion cost byrdymor heb ystyried y sefyllfa tymor hwy

Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd 18

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi a datblygu gwaith rhagnodi ym maes gofal sylfaenol sy'n cynnwys ei bwyllgor rheoli meddyginiaethau a chyffurlyfr hirsefydledig, ond er bod trefniadau rheoli rhyngwyneb presennol yn gweithio mae meddygon teulu wedi tynnu sylw at y lle sy'n bodoli i wella ansawdd llythyrau rhyddhau er mwyn cefnogi gweithdrefnau rheoli mwy effeithiol

Rhagnodi mewn ffordd ddiogel, effeithiol a darbodus 28

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhagori ar ei gynlluniau ar gyfer 2012-13 i leihau gwariant ar gyffuriau ym maes gofal sylfaenol ac mae'n un o'r goreuon o ran ei berfformiad mewn perthynas â nifer o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, ond mae lle i wella ansawdd gwaith rhagnodi a'r defnydd darbodus o rai cyffuriau o hyd.

Atodiadau

Crynodeb o'r arbedion posibl	40
Dadansoddiad o wariant yn ôl pennod BNF	42
Dadansoddiad o ddangosyddion rhagnodi	49

Lleihau adweithiau andwyol i gyffuriau	65
Rheoli gwastraff cyffuriau	68
Canfyddiadau ymarfer dyddiadur y tîm rhagnodi ym maes gofal sylfaenol	69
Negeseuon allweddol Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC) ar gyfer rhagnodwyr ym maes gofal sylfaenol	78

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

1. Rhagnodi cyffuriau yw'r math mwyaf cyffredin o driniaeth ac mae GIG Cymru yn darparu tua 75 miliwn o bresgripsiynau ym maes gofal sylfaenol bob blwyddyn sy'n cyfateb i tua £600 miliwn mewn costau meddyginiaeth. Mae'r swm a gaiff ei wario y pen o'r boblogaeth yn 2012 (£196) yn uwch nag yn Lloegr (£169) a'r Alban (£168). Hefyd, mae nifer yr eitemau a ragnodir fesul unigolyn yn cyfateb i'r uchaf yn y DU sef 24 o eitemau sydd wedi cynyddu o 15 yn 2002.
2. Gosodir hyn yn erbyn cefndir o alw cynyddol gyda chyfran uchel a chynyddol o oedolion dros 65 oed yn derbyn mwy o feddyginiaeth yn gyffredinol. Erbyn 2020, disgwylir i'r niferoedd gynyddu 24 y cant. Yn ogystal, mae gan 82 y cant o'r grŵp oedran hwn gyflwr cronig sy'n arwain at gyfraddau rhagnodi uwch.
3. Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn cwmpasu ardal wledig a threfol gymysg yn Ne Cymru. Mae'n darparu gwasanaethau aciwt, cymunedol ac iechyd meddwl i boblogaeth o 600,000 yn y dalgylch. Mae wedi trefnu ei wasanaethau yn chwe isadran, dwy Ofal wedi'i Drefnu a Gofal Heb ei Drefnu, Iechyd Meddwl, Teulu a Therapiau, Gwasanaethau Cymunedol, a Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau. Mae'r strwythur hwn yn unol â gweledigaeth y Bwrdd Iechyd a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2012/13 sef integreiddio a chysylltu gwasanaethau cymunedol a gofal eilaidd yn agosach.
4. Cyfarwyddwr Is-adran Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau yw swyddog atebol gwasanaethau Rheoli Meddyginiaethau ac mae'r gwasanaethau hynny yn rhan o'r isadran honno. Mae Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth hefyd yn atebol ac yn gyfrifol am wasanaethau fferyllfa a rheoli meddyginiaethau ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Rhagamcanwyd y byddai'r gwariant blynyddol ar gyffuriau ym maes gofal sylfaenol oddeutu £104 miliwn ar gyfer 2012-13, o gymharu â £108 miliwn ar gyfer 2011-12.
5. Cynhaliwyd yr archwiliad Cymru gyfan annibynnol diwethaf o ragnodi ym maes gofal sylfaenol yn 1998. Felly, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys adolygiad o ragnodi ym maes gofal sylfaenol yn ei raglen archwilio leol ar gyfer Byrddau Iechyd yng Nghymru.
6. Edrychodd yr archwiliad hwn ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i reoli prosesau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a cheisiodd ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw'r camau a gymerir gan y Bwrdd Iechyd yn cefnogi gwaith rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus ym maes gofal sylfaenol?' Er mwyn ateb y cwestiwn hwn ystyriwyd y canlynol:
 - y strategaeth ragnodi ym maes gofal sylfaenol a chynlluniau cyflenwi i gefnogi gwaith rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus;
 - y strwythurau, trefniadau rheoli ac adnoddau sydd ar waith i gyflawni prosesau rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus; ac
 - mae data rhagnodi ac alldro ariannol yn dangos bod y camau a gymerir gan y Bwrdd Iechyd yn arwain at waith rhagnodi diogel, effeithiol a darbodus ym maes gofal sylfaenol.

Ein prif ganfyddiadau

7. Ein prif ganfyddiad yw bod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n gryf ar arbedion cost byrdymor mewn perthynas â rhagnodi ym maes gofal sylfaenol ac er ei fod wedi integreiddio adnoddau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, rhagori ar ei dargedau arbedion a pherfformio'n dda o ran nifer o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, nid oes ganddo strategaeth ragnodi hirdymor i gynnal gwelliannau dros amser.
8. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sydd wedi arwain at y casgliad hwn.

Trefniadau cynllunio strategol

Nid oes strategaeth ragnodi ym maes gofal sylfaenol hirdymor ar waith a than yn ddiweddar mae cynlluniau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol wedi canolbwyntio'n gryf ar arbedion cost byrdymor heb ystyried y sefyllfa tymor hwy.

- **Pennu'r cyfeiriad strategol:** yn y gorffennol roedd cynlluniau'n canolbwyntio'n gryf ar arbedion cost byrdymor yn y flwyddyn i ddod ac ar faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy ar unwaith. Cyfyngodd hyn ar gwmpas y timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau i weithio tuag at welliannau mwy cynaliadwy, gan gynnwys cyflawni amcanion corfforaethol tymor hwy. Mae'r dull hwn o weithredu bellach yn newid a nodwyd tri chynllun hirdymor yn seiliedig ar y ddau brif faes rhagnodi a'r angen i ganolbwyntio ar yr adolygiad o feddyginiaethau.
- **Defnydd o dystiolaeth sy'n ategu'r gwaith o ddatblygu strategaeth:** Mae cynnwys yr SIPP gofal sylfaenol ar gyfer 2012/13 yn nodi bod blaenoriaethau yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ogystal â gwybodaeth leol. Mae cynlluniau gwaith y timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau yn canolbwyntio ar sicrhau y gwneir defnydd priodol o gyffuriau penodol, gan ddilyn canllawiau NICE ac AWMSG, a chyflawni rhaglen 1000 o Fywydau'r Bwrdd Iechyd.
- **Defnyddir proses dadansoddi ariannol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth:** Caiff gwariant ar ragnodi a'r defnydd ohono eu monitro gan y tîm cyllid bob mis. Mae'r tîm rheoli meddyginiaethau yn pennu'r ffocws a'r meysydd â blaenoriaeth ac mae'n gweithio'n agos gyda'r tîm cyllid i archwilio unrhyw dueddiadau er mwyn helpu i bennu ffocws i'w weithgarwch.
- **Monitro canlyniadau, cyflawniadau a pherfformiad:** mae'r trefniadau monitro presennol ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn canolbwyntio ar gyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn ac mae angen gwneud llawer mwy i ddatblygu mesurau canlyniadau ehangach o fewn fframwaith strategol tymor hwy.
- **Cynnwys rhanddeiliaid a chleifion:** prin yw'r dystiolaeth o gynnwys rhanddeiliaid a chleifion wrth ddatblygu cyfeiriad y gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi a datblygu gwaith rhagnodi ym maes gofal sylfaenol sy'n cynnwys ei bwyllgor rheoli meddyginiaethau a chyffurlyfr hirsefydledig, ond er bod trefniadau rheoli rhyngwyneb presennol yn gweithio mae meddygon teulu wedi tynnu sylw at y lle sy'n bodoli i wella ansawdd llythyrau rhyddhau er mwyn cefnogi gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau mwy effeithiol

- **Trefniadau rheoli:** Drwy newid Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau i fod yn un is-adran, rhoddwyd sail i'r Bwrdd Iechyd allu rheoli ei gostau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn fwy effeithlon. Er bod strwythur sefydliadol cyffredinol rheoli meddyginiaethau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn gallu bod yn aneglur ar adegau, nid yw hyn wedi effeithio ar berfformiad o ran rheoli staff na darparu gwasanaethau.
- **Cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol:** Mae'r pum tîm ardal ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau wedi dod yn fwyfwy integredig o ddydd i ddydd ac maent yn cydweithio'n dda. Cânt eu harwain gan dri uwch fferylllydd ardal, y mae gan bob un ohonynt gyfrifoldeb trawsbynciol ychwanegol, sy'n atgyfnerthu dull gweithredu integredig. Atgyfnerthwyd y trefniadau hyn ymhellach drwy sefydlu Uned Cymorth Rhagnodi, a arweinir gan yr uwch fferylllydd ardal sy'n gyfrifol am gymorth rhagnodi, a darparu adnodd dadansoddol ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.
- **Cyffurlyfr y Bwrdd Iechyd:** Cyflwynwyd cyffurlyfr ar-lein ar ddechrau 2012 yn lle fersiwn pdf blaenorol. Er bod y fersiwn pdf yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, mae'r fersiwn ar-lein ar gael yn haws a gall rhagnodwyr a'r cyhoedd ei weld.
- **Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg (MTC):** Sefydlwyd MTC newydd yn 2012, yn lle cydbwyllgor gofal sylfaenol ac eilaidd Gwent a sefydlwyd yn 2004. Mae aelodaeth y Pwyllgor presennol yn taro cydbwysedd priodol o ran rhanddeiliaid ac mae'r broses arfarnu ar gyfer cyffuriau newydd wedi'i hamlinellu'n glir a chaiff penderfyniadau eu cyfleu'n dda.
- **Gwaith rhyngwyneb:** Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd 24 o brotocolau gofal a rennir sy'n adlewyrchu arfer rhagnodi cyfredol. Mae'r protocolau hyn yn cyflawni'r arfer da a dderbynnir ac maent ar gael yn hawdd ar-lein gan nodi cyfrifoldebau rhagnodi yn glir.

Rhagnodi mewn ffordd ddiogel, effeithiol a darbodus

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhagori ar ei gynlluniau ar gyfer 2012-13 i leihau gwariant ar gyffuriau ym maes gofal sylfaenol ac mae'n un o'r goreuon o ran ei berfformiad mewn perthynas â nifer o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, ond mae lle i wella ansawdd gwaith rhagnodi a'r defnydd darbodus o rai cyffuriau o hyd.

- **Pennu cyllideb a pherfformiad ariannol:** Rhagamcanwyd y byddai gwariant y Bwrdd Iechyd ar gyffuriau ym maes gofal sylfaenol ar gyfer 2012/13 yn £104 miliwn, o gymharu â £107 miliwn ar gyfer 2011/12. Yn gyffredinol, rhagorwyd ar y targed arbedion rheoli meddyginiaethau ar gyfer y flwyddyn, a ategwyd gan gynnydd is yn y defnydd o Dabigatran ym maes gofal sylfaenol a rhagnodi Atorfastatin yn briodol.
- **Gwaith monitro ariannol:** Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng y partneriaid busnes cyllid a'r Penaethiaid Rhagnodi a Rheoli Meddyginiaethau er mwyn adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad a gweithgareddau, Defnyddir y cyfarfodydd hyn i helpu i nodi'r meysydd sydd angen ffocws ychwanegol.

Rhagnodi mewn ffordd ddiogel, effeithiol a darbodus

- **Gwariant cyffredinol ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol:** Mae gwariant y Bwrdd Iechyd yn uwch na'r cyfartaledd yn y rhan fwyaf o feysydd (**Atodiad 2**). Er enghraifft, o blith yr holl fyrddau Iechyd, Aneurin Bevan sy'n gwario'r mwyaf ar gyffuriau gastro-berfeddol ac yn rhagnodi'r nifer fwyaf ohonynt. Er y gall y sefyllfa hon, a rhai eraill sy'n debyg, gael eu cyfiawnhau, mae angen i'r rhesymau dros y fath wariant gael eu deall gan eu bod yn cyflwyno meysydd posibl ar gyfer gwell rhagnodi a thargedu cymorth rhagnodi ymhellach.
- **Dangosyddion rhagnodi effeithiol**
- Rydym wedi amcangyfrif, drwy wella perfformiad fod potensial i arbed hyd at £1.96 miliwn heb effeithio ar ofal cleifion.
- Mae gan y Bwrdd Iechyd y potensial i wella prosesau rhagnodi generig a allai arbed tua £600k.
- Er bod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i leihau nifer y diodydd ategu a ragnodir, gellid lleihau'r gwariant fesul eitem.
- Mae nifer y gorchuddion gwrthficrobaidd a ragnodir gan feddygon teulu, fel cyfran o'r holl orchuddion, yn gymharol isel am fod gan y Bwrdd Iechyd gyffurlyfr hirsefydledig ar waith ar gyfer y gorchuddion hyn er mwyn ategu gwaith rhagnodi ar sail resymegol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £500,000 ar ddyfeisiau anymataliaeth (20 y cant o wariant yng Nghymru), sy'n awgrymu bod potensial i wella ymhellach y gwaith o reoli gwasanaethau ymataliaeth lleol drwy weithio gydag arbenigwyr fel rhan o broses ragnodi ar sail resymegol hirdymor yn y maes hwn.
- **Dangosyddion rhagnodi cenedlaethol**
- Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â dangosyddion rhagnodi cenedlaethol yn amrywio.
- Os edrychir ar berfformiad cyfredol yn erbyn dangosydd Atalydd Pwmp Proton (PPI) 2012, gwelir bod gan y Bwrdd Iechyd un o'r cyfraddau rhagnodi isaf o ran PPI cost gaffael isel yng Nghymru a gallai ailystyried y defnydd o PPIau ac esomeprasol wella prosesau rhagnodi effeithiol ac arbed hyd at £350,000 efallai.
- Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r cyfraddau rhagnodi gorau ar gyfer y naw cyffur gwrthfacterol mwyaf cyffredin yng Nghymru, ond mae'n bedwerydd uchaf o ran rhagnodi'r holl gyffuriau gwrthfacterol ledled Cymru sy'n awgrymu bod mwy o le i wella prosesau rhagnodi ar sail resymegol yn y meysydd hyn.
- Mae meddygon teulu yn ardal y Bwrdd Iechyd yn defnyddio mwy o gyffuriau seffalofforin nag ardaloedd byrddau Iechyd eraill sy'n fater o ansawdd ac mae'n cynyddu'r risg o ymwrthedd gwrthfotig pan fo'r bwrdd Iechyd eisoes yn profi un o'r lefelau cymharol uwch o C. difficile yng Nghymru.
- Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagnodi'r gyfradd trydydd uchaf o ddozwlepin yng Nghymru, a gydnabyddir ganddo, ac fel rhan o CEPP caiff practisau meddygon teulu sydd â photensial i wella prosesau rhagnodi eu targedu.
- Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfradd ragnodi is ar gyfer cyffuriau cwsg a gwrthbryder na'r rhan fwyaf o fyrddau Iechyd eraill sy'n arfer da ac yn adlewyrchu'r gwaith a wneir gan feddygon teulu a'r tîm rheoli meddyginiaethau. Dylai'r gwaith o gynnal a gwella'r perfformiad hwn fod yn rhan o strategaeth rheoli meddyginiaethau'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.
- **Adrodd ar adweithiau andwyol i gyffuriau:** mae cyfraddau adrodd wedi parhau i ostwng a phrin yw'r dystiolaeth o fewn dull gweithredu cyfredol y Bwrdd Iechyd y caiff y fath berfformiad ei wyrdroi.
- **Gwastraff cyffuriau:** mae'r Bwrdd Iechyd yn targedu gwastraff cyffuriau drwy wahanol fentrau, er nad yw ei lwyddiant cymharol hyd yma yn glir am nad yw'r systemau monitro, dadansoddi a chofnodi wedi'u datblygu'n dda eto.

Argymhellion

Trefniadau Cynllunio Strategol

- A1 Datblygu a gweithredu fframwaith strategol clir ar gyfer rheoli meddyginiaethau ym maes gofal sylfaenol, gan amlinellu:
- gweledigaeth ac amcanion tymor canolig i hirdymor ar gyfer darparu gwasanaethau;
 - y cyfeiriad ar gyfer integreiddio gwasanaethau rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ymhellach;
 - cysylltiadau ag amcanion strategol ehangach y Bwrdd Iechyd;
 - cysylltiadau â pholisïau a mentrau cenedlaethol fel 1000 o Fwydau a fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol; a
 - ffyrdd mwy effeithiol o gynnwys fferyllwyr cymunedol mewn cynlluniau Adolygu'r Defnydd o Feddyginiaethau a gostwng lefel y cyffuriau a wastreffir.
- A2 Pennu cynlluniau rhagnodi a rheoli meddyginiaethau clir ar gyfer y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn:
- atgyfnerthu dulliau gweithredu er mwyn helpu meddygon teulu i ymateb i argymhellion gofal eilaidd, gan gynnwys herio clinigwyr gofal eilaidd mewn modd cadarn;
 - codi ymwybyddiaeth clinigwyr gofal eilaidd o'r gost bosibl ac effaith ehangach eu hargymhellion rhagnodi ar ofal sylfaenol;
 - sicrhau bod proses fonitro reolaidd ar waith yn barhaus a, lle y bo'n briodol, herio argymhellion rhagnodi mewn modd cadarn ym mhob rhan o'r rhyngwyneb;
 - gwella ansawdd cysylltiadau rhyddhau;
 - sicrhau bod materion rhagnodi a rheoli meddyginiaethau yn cael eu cynnwys o'r cychwyn mewn mentrau ailgynllunio gwasanaethau, datblygu llwybrau gofal a chyfleoedd tebyg eraill; a
 - nodi ac achub ar gyfleoedd i staff rheoli meddyginiaethau a chlinigwyr yn fwy cyffredinol gydweithio ym mhob rhan o'r rhyngwyneb er mwyn helpu i atgyfnerthu dulliau rhagnodi a rheoli meddyginiaethau effeithiol rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd.
- A3 Sicrhau bod amcanion tymor hwy yn cael eu blaenoriaethu'n glir o fewn rhaglenni gwaith blynyddol.
- A4 Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu strategaeth gwasanaeth tymor canolig i hirdymor yn adlewyrchu gwybodaeth am amddifadedd, anghenion iechyd a materion iechyd y cyhoedd.
- A5 Nodi a defnyddio gallu ac adnoddau dadansoddi economaidd ym maes iechyd er mwyn ategu trefniadau cynllunio.
- A6 Sicrhau bod cynlluniau gwaith gweithredol yn blaenoriaethu'r defnydd o gyffuriau sy'n generig ar hyn o bryd.
- A7 Sicrhau bod y broses o gynnwys rhanddeiliaid a chleifion mewn modd ystyrlon yn rhan annatod o waith i ddatblygu gwasanaethau.
- A8 Sicrhau bod y Bwrdd yn gweld dangosyddion perfformiad rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a gwybodaeth fonitro arall o bryd i'w gilydd.

Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd

- A9 Egluro priod gyfrifoldeb ac atebolrwydd Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth a Chyfarwyddwr Is-adrannol Gofal Sylfaenol am staff rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a staff rheoli meddyginiaethau.
- A10 Sicrhau bod adnoddau cymorth rhagnodi yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl drwy:
- gynyddu cyfran y gwaith a wneir yn uniongyrchol gyda rhagnodwyr unigol a phractisau cyffredinol;
 - pennu amcanion byrdymor a thymor hwy clir ar gyfer gwaith staff cymorth rhagnodi; a
 - threfnu gweithgareddau timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau mewn ffordd sy'n eu galluogi i gyflawni'r technegau dylanwadu mwyaf priodol fel sesiynau cyswllt uniongyrchol â meddygon teulu.
- A11 Atgyfnerthu rôl cyfarwyddwyr clinigol meddygon teulu yn y gwaith o ddylanwadu ar eu cydweithwyr lleol o ran materion rhagnodi.
- A12 Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael er mwyn:
- cadw gwybodaeth o'r cyffurlyfr yn gyfredol; a
 - monitro cydymffurfiaeth â'r cyffurlyfr.
- A13 Atgyfnerthu trefniadau cyfredol ar gyfer yr MTC drwy ddatblygu blaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn.
- A14 Atgyfnerthu ymdrechion i newid ymddygiad rhagnodi ymhlith clinigwyr arbenigol.

Rhagnodi mewn ffordd ddiogel, effeithiol a darbodus

- A15 Ymdrin â phob un o'r cyfleoedd penodol a nodir yn yr adroddiad hwn er mwyn gwella ansawdd, diogelwch a darbodusrwydd gwaith rhagnodi ym maes gofal sylfaenol.
- A16 Adolygu'r rhesymau dros yr amrywiad sylweddol mewn cyfraddau rhagnodi cyffuriau gastro-berfeddol gan feddygon teulu, er mwyn helpu i ganolbwyntio ar wella ansawdd a darbodusrwydd y fath ragnodi.
- A17 Datblygu dull o wella'r broses o adrodd ar adweithiau andwyol i gyffuriau fel rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth ragnodi ym maes gofal sylfaenol.

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio strategol

9. Nid oes strategaeth ragnodi ym maes gofal sylfaenol hirdymor ar waith a than yn ddiweddar mae cynlluniau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol wedi canolbwyntio'n gryf ar arbedion cost byrdymor heb ystyried y sefyllfa tymor hwy.
- **Pennu'r cyfeiriad strategol:** Yn y gorffennol roedd cynlluniau'n canolbwyntio'n gryf ar arbedion cost byrdymor yn y flwyddyn i ddod ac ar faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy ar unwaith. Cyfyngodd hyn ar gwmpas y timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau i weithio tuag at welliannau mwy cynaliadwy, gan gynnwys cyflawni amcanion corfforaethol tymor hwy. Mae'r dull hwn o weithredu bellach yn newid a nodwyd tri chynllun hirdymor yn seiliedig ar y ddau brif faes rhagnodi a'r angen i ganolbwyntio ar yr adolygiad o feddyginiaethau.
 - **Defnydd o dystiolaeth sy'n ategu'r gwaith o ddatblygu strategaeth:** Mae cynnwys y SIPP gofal sylfaenol ar gyfer 2012/13 yn nodi bod blaenoriaethau yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ogystal â gwybodaeth leol. Mae cynlluniau gwaith y timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau yn canolbwyntio ar sicrhau y gwneir defnydd priodol o gyffuriau penodol, gan ddilyn canllawiau NICE ac AWMSG, a chyflawni rhaglen 1000 o Fywydau'r Bwrdd Iechyd.
 - **Defnyddir proses dadansoddi ariannol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth:** Caiff gwariant ar ragnodi a'r defnydd ohono eu monitro gan y tîm cyllid bob mis. Mae'r tîm rheoli meddyginiaethau yn pennu'r ffocws a'r meysydd â blaenoriaeth ac mae'n gweithio'n agos gyda'r tîm cyllid i archwilio unrhyw dueddiadau er mwyn helpu i bennu ffocws i'w weithgarwch.
 - **Monitro canlyniadau, cyflawniadau a pherfformiad:** Mae'r trefniadau monitro presennol ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn canolbwyntio ar gyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn ac mae angen gwneud llawer mwy i ddatblygu mesurau canlyniadau ehangach o fewn fframwaith strategol tymor hwy.
10. **Cynnwys rhanddeiliaid a chleifion:** Prin yw'r dystiolaeth o gynnwys rhanddeiliaid a chleifion wrth ddatblygu cyfeiriad y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad hwn.

Pennu'r cyfeiriad strategol

Arfer disgwylidig

Mae gan y BILI strategaeth ragnodi gyfredol sy'n cwmpasu cyfnod diffiniedig o amser (er enghraifft, rhwng tair a phum mlynedd) ynghyd â chynlluniau cyflenwi cysylltiedig i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei nodau strategol â chamau â blaenoriaeth.

Ar waith?

✓/x

Rhagor o wybodaeth

Roedd Rheoli Meddyginiaethau yn un o bum ffrwd waith a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2011/12 i helpu i gyflawni ei Gynllun Ariannol y flwyddyn honno. Mae'n parhau i fod yn faes lle disgwylir gwelliannau sylweddol o ran costau.

Mae gan y gwasanaeth broses gynllunio flynyddol sy'n amlinellu'r gweithgareddau bras

Pennu'r cyfeiriad strategol

Arfer disgwyliedig

Ar waith?

Rhagor o wybodaeth

ar gyfer y flwyddyn. Rhoddir y pwyslais ar wella yn erbyn dangosyddion rhagnodi drwy dargedu arferion â'r potensial mwyaf i wneud arbedion, a lleihau amrywiad rhagnodi ymhlith yr arferion rhagnodi uchaf ac isaf.

Er nad oes strategaeth tymor canolig i hirdymor fanwl ar waith, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â datblygu tri chynllun hirdymor yn seiliedig ar y ddau faes rhagnodi mwyaf (Diabetes ac Anadlol) a'r angen i ganolbwyntio ar adolygu meddyginiaethau (amlyfferylliaeth). Mae'r tîm rheoli rhagnodi o'r farn bod rheoli meddyginiaethau ac optimeiddio meddyginiaethau yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau moderneiddio gwasanaeth ehangach ac maent bellach i'w gweld yn amlwg yn y cynllun diabetes ac anadlol ynghyd â ffrydiau gwaith.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod llawer o'r arbedion a'r gwelliannau o ran rhagnodi ym maes gofal sylfaenol wedi cael eu gwneud a bod angen canolbwyntio'n fwy ar ddulliau gweithredu parhaus tymor hwy er mwyn cyflawni gwelliannau pellach.

Er mwyn cyflawni'r gwelliannau hyn bydd angen datblygu strategaeth rheoli meddyginiaethau hirdymor sy'n nodi meysydd newydd â blaenoriaeth sy'n gysylltiedig ag amcanion gwella iechyd lleol a ddylai, yn eu tro, fwydo i mewn i gynlluniau datblygu a lleoli gweithlu a chynlluniau cyflenwi gweithredol ar gyfer y tîm rheoli meddyginiaethau.

Dylai camau strategol y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â rhagnodi ym maes gofal sylfaenol gael eu hintegreiddio â gwaith rheoli meddyginiaethau ym maes gofal eilaidd. Heb strategaeth integredig, dylai'r strategaeth gofal sylfaenol weithredu mewn modd sy'n gyson â'r strategaeth gofal eilaidd.

✓/x

Bu newid sefydliadol er mwyn sicrhau bod dull mwy integredig o ragnodi a rheoli meddyginiaethau rhwng ardaloedd, er nad oes strategaeth integredig glir ar gyfer gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

Mae rhai o'r sylfeini ar gyfer dull o'r fath wedi cael eu datblygu. Er enghraifft, mae cyffurlyfr ar y cyd a phrotocolau gofal a rennir i gyd ar gael yn hawdd i ragnodwyr ar-lein.

Dylai'r dull gweithredu strategol fod yn gysylltiedig â nodau strategol eraill y Bwrdd Iechyd, er enghraifft, ei Strategaeth Iechyd y Cyhoedd.

✓/x

Mae gwaith y timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau yn cyfrannu at nifer o fentrau a nodir yng Nghynllun Darparu Gwasanaethau'r Bwrdd

Pennu'r cyfeiriad strategol

Arfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
		<p>lechyd a'i nodau ar gyfer lechyd y Cyhoedd yn 2012/13, yn enwedig o ran gwella canlyniadau iechyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd a symud gwasanaethau i mewn i'r gymuned. Mae gwella'r broses o reoli meddyginiaethau yn cael sylw penodol yng Nghynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012/13. Fodd bynnag, gall y ffaith nad oes strategaeth ragnodi tymor hwy sy'n integreiddio â'r nodau hyn o ran iechyd y cyhoedd rwystro neu atal yr amcanion hyn rhag cael eu cyflawni.</p>
<p>Mae trefniadau cynllunio yn mynd i'r afael â'r gwaith o ailgynllunio gwasanaethau, gan gynnwys datblygu a hyfforddi'r gweithlu.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn barod i gymryd camau a gaiff effaith tymor hwy ar ansawdd ac arbedion. Er enghraifft, mae penodi sawl deietegydd i swyddi 'buddsoddi i arbed' wedi gwella'r cyngor deietegol a roddir i gartrefi gofal ac wedi gostwng lefelau rhagnodi ychwanegion bwyd. O ganlyniad i'r cynllun, arbedwyd £220,000 yn 2011/12 gyda £236,000 o arbedion yn cael eu cario ymlaen ar gyfer cynllun 2012/13.</p> <p>Fodd bynnag, nid oes gan gynlluniau ehangach ar gyfer ailgynllunio gwasanaethau ddigon o ffocws heb weld y gwasanaeth o safbwynt strategol hirdymor.</p>
<p>Mae trefniadau cynllunio yn ymdrin â'r defnydd effeithiol o gontract fferyllfeydd cymunedol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft gwasanaethau lleol gwell.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae'r timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fwrw ati i ymgysylltu â fferyllwyr cymunedol, yn enwedig datblygu a gweithredu Gwasanaethau Lleol Gwell. Ceir proses hunanasesu flynyddol y mae pob fferyllfydd cymunedol yn cymryd rhan ynddi ac ymwelir â phob un unwaith bob tair blynedd. Mae'r broses ddatblygu hon yn gryn ymrwymiad. Mae technegwyr wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r ymweliadau proffesiynol ac ystyrir bod hyn yn ehangu ar eu rôl mewn ffordd gadarnhaol.</p> <p>Mae'r defnydd a wneir o'r cynllun Gwasanaethau Lleol Gwell ar gyfer fferyllwyr cymunedol yn amrywio rhwng ardaloedd, er ei fod yn gwella.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi aelod o staff o fewn yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau i ganolbwyntio ar y Contract Fferyllfeydd Cymunedol a gweithio arno. Y</p>

Pennu'r cyfeiriad strategol

Arfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
		nod yw lleihau'r baich ar y timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau, drwy symud y cyfrifoldeb am ddatblygu cytundebau lefel gwasanaeth a gweithdrefnau gweithredu safonol. Mae gan bob ardal arweinydd fferylliaeth gymunedol lleol dynodedig, sef swydd generig sy'n cwmpasu BIPAB i gyd, sy'n manteisio ar wybodaeth leol ac agweddau proffesiynol ar y contract.
Mae'r strategaeth yn ymdrin â lleihau gwastraff, er enghraifft drwy hyrwyddo adolygiadau o feddyginiaethau practisau, rheoli presgripsiynau amlroddadwy a gweithio gyda fferyllwyr cymunedol.	✓/x	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn ymgyrch ar y cyd â byrddau iechyd eraill i godi ymwybyddiaeth cleifion a'r cyhoedd o'r swm sylweddol o wastraff a geir gyda meddyginiaethau a ragnodir, ochr yn ochr â mentrau ym maes gofal sylfaenol i wella'r broses o reoli meddyginiaethau ac atal patrymau rhagnodi sy'n cynyddu gwastraff. Trafodir adolygiad manylach o ddull gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn.

Defnydd o dystiolaeth sy'n ategu'r gwaith o ddatblygu strategaeth

Arfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Caiff y gwaith o ddatblygu strategaeth ei lywio gan ddadansoddiad clir o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad rhagnodi.	✓/x	Mae'r SIPP gofal sylfaenol ar gyfer 2012/13 yn awgrymu bod blaenoriaethau yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ogystal â gwybodaeth leol. Ceir cydnabyddiaeth gyffredinol nad yw bob amser yn hawdd dylanwadu ar feddygon teulu a chleifion er mwyn newid eu hymddygiad rhagnodi. Mae'r timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau yn canolbwyntio ar geisio cynnal ymweliadau rheolaidd â phractisau er mwyn sicrhau cytundeb. Fodd bynnag, gallai camau mwy pendant i nodi opsiynau eraill hefyd helpu i gyflawni gwell canlyniadau yn yr hirdymor. Er enghraifft, cyfleoedd hyfforddi a datblygu penodol i feddygon teulu a grwpiau eraill; defnyddio dylanwad arweinwyr meddygon teulu yn yr ardal; hwyluso'r broses agored o rannu data ar berfformiad rhagnodi practisau ymhlith grwpiau o feddygon teulu.

Defnydd o dystiolaeth sy'n ategu'r gwaith o ddatblygu strategaeth

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth yn gyson â'r gwaith o gyflawni polisiau cenedlaethol ar feddyginiaeth, gan gynnwys Canllawiau NICE ac AWMSG, ac yn ei ategu, a chwmpesir effaith cyffuriau newydd a newid y defnydd o gyffuriau sy'n bodoli eisoes.	✓	Mae'r cynllun gwaith yn canolbwyntio ar leihau'r defnydd o gyffuriau penodol a chyfeirir at ganllawiau NICE ac AWMSG yn gyson.
Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth yn gyson â 1000 o fywydau a fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol (canllawiau NSF).	✓	Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweithiol o ran hyrwyddo 1000 o fywydau ac mae'r broses o reoli meddyginiaethau a mentrau yn gyson â'r rhaglen hon. Yn arbennig, mae'r tîm rheoli meddyginiaethau wedi cyflawni cryn dipyn o waith ar reoli warffarin a'r defnydd o NSAID.
Paratowyd y strategaeth gyda mewnbwn gan randdeiliaid allweddol fel meddygon teulu, meddygon ymgynghorol ysbytai a chynrychiolwyr cleifion.	✓	Defnyddir gweithdai i helpu i ddatblygu cynlluniau gwaith blynyddol a gwahoddir partneriaid fel meddygon ymgynghorol gofal eilaidd a grwpiau cleifion i gyfranogi. Mae angen i'r fath ymgysylltu gael ei ehangu, fel rhan allweddol o'r gwaith o ddatblygu strategaeth ragnodi hirdymor.

Defnyddir proses dadansoddi ariannol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth yn cynnwys dadansoddiad ariannol ac mae'n seiliedig ar y canlynol:	✓	Caiff gwariant a defnydd ym maes rhagnodi eu monitro'n fisol gan y tîm cyllid, sy'n gweithio'n agos gyda'r timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau i archwilio unrhyw dueddiadau, gan gynnwys defnydd misol dros gyfnod o flynyddoedd. Cedwir y wybodaeth hon ar yriant a rennir, sy'n golygu ei bod ar gael i bob aelod o'r timau. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen cynnal dadansoddiad economaidd mwy cadarn o iechyd er mwyn ategu trefniadau llywodraethu a nodi'r gallu a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith hwnnw.
Rhagnodi generig a'r defnydd o gyffuriau brand;	✓/x	Mae'r timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau wedi bod yn annog meddygon teulu i ddefnyddio cyffuriau generig ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, er bod y gwaith hwn yn parhau i ryw raddau, mae ffocws y timau yn newid i feysydd rhagnodi eraill, yn

Defnyddir proses dadansoddi ariannol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
		rhannol am fod llawer o feddygon teulu yn cael eu gweld yn defnyddio cyffuriau generig yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. Fodd bynnag, dengys ein dadansoddiad o gyfraddau rhagnodi generig (gweler Adran 3 isod) fod cyfleoedd i wella yn bodoli o hyd. Efallai y bydd angen ailbennu ffofws strategol y defnydd o adnoddau Rheoli Meddyginiaethau er mwyn gwella ymhellach yn y maes hwn.
Trefniadau wrth gefn ar gyfer datblygiadau nas cynlluniwyd.	✓/x	Nid yw'r trefniadau cynllunio ariannol sydd ar waith ar hyn o bryd yn nodi'n benodol drefniadau wrth gefn ar gyfer unrhyw ddatblygiadau nas cynlluniwyd. Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd lechyd hanes o reoli materion newydd a materion sy'n dod i'r amlwg fel yr argyfwng fflw H1N1 yn 2009 o fewn ei drefniadau cynllunio a darparu gwasanaethau presennol.

Monitro canlyniadau, cyflawniadau a pherfformiad

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Ceir nodau strategol, canlyniadau ac amcanion CAMPUS clir i fesur perfformiad.	✓	Mae cerrig milltir ynghlwm wrth leihau'r defnydd o gyffuriau penodol. Caiff y wybodaeth gysylltiedig am berfformiad ei chodio'n goch, melyn neu wyrdd. Mae gwyrdd yn golygu y bydd yr arbedion disgwylidig yn cael eu gwireddu, tra bod melyn a choch yn awgrymu bod llai o siawns y bydd hyn yn digwydd. Ystyrir mai targedau gwyrdd yw'r brif flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn. Caiff cynnydd ei fonitro gan y tîm cyllid.
Mae'r fframwaith ar gyfer cyflawni gwaith monitro yn cynnwys cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau priodol.	✓	Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar berfformiad ym maes rhagnodi yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, er bod hyn wedi tueddu i fod yn broses ad hoc. Ym mis Tachwedd 2012, atgyfnerthwyd trefniadau adrodd a chafodd y Pwyllgor adroddiad cynhwysfawr ar ddangosyddion rhagnodi cenedlaethol am y tro cyntaf. Cyflwynir y rhan fwyaf o adroddiadau rheolaidd ar berfformiad a chynnydd tuag at gyflawni cerrig milltir o ran perfformiad drwy'r Bwrdd Rheoli Meddyginiaethau, lle ceir cynrychiolaeth gan un

Monitro canlyniadau, cyflawniadau a pherfformiad

Arfer disgwylidig

Ar waith?

Rhagor o wybodaeth

cyfarwyddwr anweithredol.

Mae'r gwaith o reoli meddyginiaethau yn elfen allweddol o Raglen Cyflawni a Newid y Bwrdd.

Mae ychydig o bosibilrwydd y gallai'r Bwrdd golli golwg o berfformiad ym maes rhagnodi. Dylai sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Strwythurau, adnoddau a rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd

11. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi a datblygu gwaith rhagnodi ym maes gofal sylfaenol sy'n cynnwys ei bwyllgor rheoli meddyginiaethau a chyffurlyfr hirsefydledig, ond er bod trefniadau rheoli rhyngwyneb presennol yn gweithio mae meddygon teulu wedi tynnu sylw at y lle sy'n bodoli i wella ansawdd llythyrau rhyddhau er mwyn cefnogi gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau mwy effeithiol.
- **Trefniadau rheoli:** Drwy newid Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau i fod yn un is-adran, rhoddwyd sail i'r Bwrdd Iechyd allu rheoli ei gostau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn fwy effeithlon. Er bod strwythur sefydliadol cyffredinol rheoli meddyginiaethau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn gallu bod yn aneglur ar adegau, nid yw hyn wedi effeithio ar berfformiad o ran rheoli staff na darparu gwasanaethau.
 - **Cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol:** Mae'r pum tîm ardal ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau wedi dod yn fwyfwy integredig o ddydd i ddydd ac maent yn cydweithio'n dda. Cânt eu harwain gan dri uwch fferylllydd ardal, y mae gan bob un ohonynt gyfrifoldeb trawsbynciol ychwanegol, sy'n atgyfnerthu dull gweithredu integredig. Atgyfnerthwyd y trefniadau hyn ymhellach drwy sefydlu Uned Cymorth Rhagnodi, a arweinir gan yr uwch fferylllydd ardal sy'n gyfrifol am gymorth rhagnodi, a darparu adnodd dadansoddol ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.
 - **Cyffurlyfr y Bwrdd Iechyd:** Cyflwynwyd cyffurlyfr ar-lein ar ddechrau 2012 yn lle fersiynau pdf blaenorol. Er bod y fersiwn pdf yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, mae'r fersiwn ar-lein ar gael yn haws a gall rhagnodwyr a'r cyhoedd ei weld.
 - **Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg (MTC):** Sefydlwyd MTC newydd yn 2012, yn lle cydbwyllgor gofal sylfaenol ac eilaidd Gwent a sefydlwyd yn 2004. Mae aelodaeth y Pwyllgor presennol yn taro cydbwysedd priodol o ran rhanddeiliaid ac mae'r broses arfarnu ar gyfer cyffuriau newydd wedi'i hamlinellu'n glir a chaiff penderfyniadau eu cyfleu'n dda.
12. **Gwaith rhyngwyneb:** Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd 24 o brotocolau gofal a rennir sy'n adlewyrchu arfer rhagnodi cyfredol. Mae'r protocolau hyn yn cyflawni'r arfer da a dderbynnir ac maent ar gael yn hawdd ar-lein gan nodi cyfrifoldebau rhagnodi yn glir. Mae'r tabl isod yn crynhoi ein canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliadau.

Trefniadau rheoli

Arfer disgwylidig

Ceir atebolrwydd proffesiynol a rheoli clir ar gyfer rheoli meddyginiaethau a rhagnodi gan feddygon teulu. Dylai hyn gynnwys arweinydd gweithredol ar lefel Bwrdd.

Ar waith?



Rhagor o wybodaeth

Er mai Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth sydd â chyfrifoldeb proffesiynol a rheoli am y Tîm Rheoli Meddyginiaethau ym maes Gofal Sylfaenol, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau sy'n gyfrifol am y gyllideb. Newidiwyd i un is-adran ar gyfer Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau yn rhannol er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd ardal am gostau rhagnodi a'r angen i'r Bwrdd lechyd allu cyfeirio ei adnoddau'n fwy effeithlon.

Mae'r Cyfarwyddwr Is-adrannol yn gyfrifol i'r Prif Swyddog Gweithredu sy'n cadeirio Bwrdd Rhaglen Reoli Meddyginiaethau (MMPB).

Mae Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth yn rhoi adroddiadau cyfredol i'r MMPB bob mis sy'n cwmpasu rhagolygon gwariant, perfformiad o ran y cynllun arbedion a chyflawni ffrydiau gwaith rheoli meddyginiaethau Er y gall y strwythur sefydliadol fod yn aneglur ni fu unrhyw effaith ar reoli staff na darparu gwasanaethau.

Cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol

Arfer disgwylidig

Caiff rolau cymorth a chynghor rhagnodi ym maes gofal sylfaenol eu diffinio'n glir.

Ar waith?



Rhagor o wybodaeth

Ceir tri uwch fferylllydd ardal ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol. Mae pob un yn gyfrifol am faes trawsbynciol, er mwyn helpu i atgyfnerthu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau, gan gynnwys:

- cymorth rhagnodi;
- llywodraethu meddyginiaethau; a
- gwasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol.

Mae pob un o'r pum tîm rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau yn adrodd i uwch fferylllydd ardal dynodedig. Mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda.

Mae staff a benodwyd i'r Uned Cymorth Rhagnodi (PSU) a sefydlwyd yn ddiweddar yn adrodd i'r uwch fferylllydd ardal am gymorth rhagnodi. Maent yn darparu adnodd dadansoddol ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol ym mhob rhan o'r Bwrdd lechyd. Er y

Cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol

Arfer disgwyliedig

Ar waith?

Rhagor o wybodaeth

bu cyfnod o addasu wrth i staff ddod yn gyfarwydd â gweithio hyblyg ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda.

Dywedodd meddygon teulu wrthym yn gyson fod ganddynt gyberthnasau gwaith da iawn â fferyllwyr a thechnegwyr lleol. Dywedwyd eu bod yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau a'r cyngor a roddwyd a'u bod yn ymateb iddynt yn gyffredinol.

Caiff perfformiad a chydymffurfiaeth eu monitro ac mae adnoddau'r tîm rhagnodi yn targedu meysydd â blaenoriaeth a meysydd effaith uchel.

✓

Mae'r timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau yn cyflawni dadansoddiadau manwl o wybodaeth ac yn eu defnyddio i dargedu ymyriadau ar bractisau lle gellid gwella a hefyd ar ragnodi allgleifion. Yn arbennig, mae'r timau rheoli meddyginiaethau yn nodi amrywiad mewn rhagnodi ar gyfer pob meddygfa gan ddefnyddio'r canlynol:

- costau rhagnodi blynyddol
- cost fesul 1000PU
- eitemau fesul 1000PU
- sgoriau dangosyddion.

Yn dilyn y dadansoddiad hwn, cymerwyd camau wedi'u targedu gyda phob practis, gan ganolbwyntio'n arbennig ar allgleifion.

Caiff technegwyr a fferyllwyr nifer o bractisau yr un. Mae technegwyr yn gyfrifol am gynnal archwiliadau a chwiliadau ac maent yn cefnogi'r fferyllwyr sy'n rhoi cyngor a chymorth i feddygon teulu ar ragnodi unigol a phractis. Bydd fferyllwyr yn cynnal adolygiad blynyddol ac yn paratoi adroddiad ffurfiol ar gyfer pob practis.

Mae newidiadau mewn trefniadau ardal, yn sgil sefydlu'r Bwrdd Iechyd, wedi cynyddu lefelau integreiddio cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol drwy alluogi staff i weithio ar draws ardaloedd pan fo angen. Mae'r adnoddau staff a geir mewn pedair o'r pum ardal yn weddol gyson. Yn hanesyddol, bu gan ardal Caerffili lefel uwch o adnoddau staff ac fe'u defnyddir mewn ardaloedd eraill bellach pan fo'n briodol.

Wrth i Rwydweithiau Cymuned Cymdogaeth aeddfedu, dylai cyfarwyddwyr clinigol meddygon teulu chwarae rhan gynyddol yn y gwaith o ddylanwadu ar eu cydweithwyr lleol

Cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol

Arfer disgwyliedig

Ar waith?

Rhagor o wybodaeth



mewn perthynas â materion rhagnodi. Bydd y defnydd cymharol o ddata rhagnodi rhwng practisau cymdogaeth yn bwysig yn hyn o beth.

Gwnaethom gynnal ymarfer dyddiadur o weithgarwch cymorth rhagnodi ym mhob bwrdd (**Atodiad 6**). Dangosodd y canlynol o ran y Bwrdd Iechyd:

- mae llai na 30 y cant o waith timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau rhagnodi ardal gyda phractisau meddygon teulu yn uniongyrchol;
- caiff y rhan fwyaf o amser cyngor rhagnodi ei dreulio ar weithgareddau cymorth ehangach; ac
- amser cymharol fach a dreulir yn gweithio gyda'r gymuned ehangach neu'r sector aciwt.

Mae hyn yn awgrymu bod cyfle i ystyried sut y gellid defnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol, drwy ganolbwyntio'n fwy ar weithio'n uniongyrchol gyda phractisau a rhagnodwyr, yn y gymuned, ac ym maes gofal eilaidd. Fel rhan o waith cynllunio strategol tymor canolig i hirdymor, dylid ystyried yr angen am brosesau dyrannu a threfnu gweithgareddau a chyfrifoldebau mwy effeithiol o fewn y timau a rhyngddynt.

Mae systemau gwybodaeth ategol ar waith i gefnogi cyngor rhagnodi.



Mae gwefan MTC y Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd cynhwysfawr o wybodaeth sydd ar gael yn hawdd ar-lein, gan gynnwys:


- gwybodaeth ragnodi goleuadau traffig;
- cyffurlyfrau;
- canllawiau rhagnodi;
- protocolau gofal a rennir;
- mynediad i'r Ffurflen Ragnodi Gwrthod Derbyn;
- adrodd ar-lein Cerdyn Melyn; ac
- agendâu, cofnodion a phapurau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd MTC.

Mae'r timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau yn cynnal gyriant a rennir sy'n cynnwys gwybodaeth am 50 o'r cyffuriau mwyaf cyffredin a ddefnyddir yn lleol

Cymorth rhagnodi ym maes gofal sylfaenol

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
		<p>ym maes gofal sylfaenol, er mwyn helpu i dargedu gwaith ar bractisau sy'n perfformio'n wael. Mae hyn yn cynnwys manylion am natur gwariant practisau ar y cyffuriau hyn ac unrhyw gynnydd neu leihad mewn defnydd. Caiff y wybodaeth ei diweddarau bob mis gan ddefnyddio data Atebion Iechyd Cymru (HSW). Gall practisau hefyd weld y data er gwybodaeth.</p> <p>Mae'r timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau hefyd yn rhoi diweddariadau chwarterol i bractisau, gan gyflwyno darlun cymharol ledled Cymru. Ar adeg ein hadolygiad, nododd y tîm cyllid ei fod am ehangu'r gwaith o gymharu data y tu hwnt i Gymru drwy ddefnyddio data o Ogledd Ddwyrain Lloegr. Darparwyd enw cyswllt er mwyn helpu i ddatblygu hyn.</p>

Cyffurlyfr BIAB

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
<p>Mae sefydlu cyffurlyfr lleol yn bwysig er mwyn helpu i ddarparu gwybodaeth sy'n ategu dewisiadau diogel a darbodus o ran cyffuriau o fewn bwrdd iechyd. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i'r cyffurlyfr gael ei ddatblygu ar y cyd â chlinigwyr perthnasol. Mae hefyd angen iddo gael ei hyrwyddo mor eang â phosibl ym meysydd gofal sylfaenol a gofal eilaidd a dylai fod ar gael yn hawdd, gan gynnwys yn electronig. Gan ddefnyddio system RAG (coch, melyn a gwyrdd) neu broses debyg, dylai'r cyffurlyfr nodi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Meddyginiaethau sy'n addas ar gyfer rhagnodi ym maes gofal sylfaenol.• Meddyginiaethau a gychwynnir mewn ysbyty/lleoliad arbenigol ond sy'n addas ar gyfer gofal a rennir ym maes gofal sylfaenol o dan gytundeb gofal a rennir bwrdd		<p>Sefydlwyd cyffurlyfr ar y cyd yn 2003, yn seiliedig ar system coch/melyn/gwyrdd (RAG), er mwyn dynodi pa gyffuriau a ystyrir yn addas ar gyfer rhagnodi arbenigol yn unig, cychwyniad arbenigol yn unig neu sy'n addas i'w cychwyn gan bob rhagnodydd.</p> <p>Cyflwynwyd cyffurlyfr ar-lein electronig, gan ddefnyddio system rheoli cyffurlyfr GIG Cymru (INFORM), yn 2012 ac mae ar gael i bob rhagnodydd. Mae'n hygyrch drwy wefan MTC. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen oherwydd dylai helpu i oresgyn problemau o ran y defnydd o hen fersiynau copi caled o'r cyffurlyfr a ddefnyddir gan rai rhagnodwyr.</p>

Cyffurlyfr BIAB

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
<p>iechyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Meddyg ymgynghorol ysbyty neu arbenigwr sy'n gyfrifol am ragnodi. • Nid yw'r DTG yn argymhell defnyddio meddyginiaeth oni fydd amgylchiadau eithriadol. Mewn achosion fel hyn ceir cyngor gan gynghorydd rhagnodi a chofnodir y rhesymau dros ragnodi. 		
<p>Caiff cydymffurfiaeth â'r cyffurlyfr ei monitro a chymerir camau os na chyflawnir hynny.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Yn 2010 yr adolygwyd cydymffurfiaeth â rhestr RAG yn ffurfiol ddiwethaf ac ni nododd unrhyw batrwm na thueddiadau penodol.</p> <p>Yn fwy diweddar, mae meddygon teulu wedi gallu defnyddio ffurflen 'gwrthod rhagnodi' os ydynt yn poeni bod clinigwyr gofal eilaidd yn rhagnodi y tu hwnt i bamedrau cyffurlyfr. Caiff y ffurflenni gwrthod rhagnodi eu monitro'n gyson a chaiff unrhyw faterion eu nodi a'u rheoli. Bellach ceir cyswllt llawer gwell â chyfarwyddwyr clinigol drwy'r fferylllydd is-adrannol. Mae'r trefniant hwn yn un effeithiol ac mae meddygon teulu yn teimlo eu bod wedi'u grymuso ganddo oherwydd mae'n fodd iddynt ymdrin â'u pryderon yn gyflym. Fodd bynnag, credir hefyd nad yw bob amser wedi helpu i newid ymddygiad rhagnodi mewn gofal eilaidd gan fod rhai meddygon teulu yn dal i gael ceisiadau i ragnodi y tu hwnt i drefniadau cyffurlyfr. Mae angen i'r MTC a'r Cyfarwyddwr Clinigol ystyried sut i gyflawni newidiadau'n gyflymach yn y maes risg uchel hwn. Dylent hefyd adolygu a oes digon o adnoddau wrth y rhyngwyneb i helpu i sicrhau bod y cyffurlyfr yn cael ei fonitro'n barhaus.</p>

Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg (MTC) BIAB

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
<p>Mae gwaith grwpiau cyffuriau a therapiwteg lleol yn elfen allweddol o sicrhau bod cyffuriau a thriniaethau newydd yn cael eu defnyddio mewn modd diogel, effeithiol a darbodus. Er mwyn bod yn effeithiol, dylai'r aelodau</p>	<p>✓</p>	<p>Sefydlwyd MTC newydd ddiwedd 2012, yn lle cydbwyllgor gofal sylfaenol ac eilaidd a sefydlwyd yn 2004.</p> <p>Yn ôl y cylch gorchwyl, er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng sectorau, dylai'r aelodaeth gynnwys:</p>

Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg (MTC) BIAB

Arfer disgwyliedig

gynrychioli pob rhanddeiliaid gan gynnwys aelodau lleyg.

Ar waith?

Rhagor o wybodaeth

- chwe chynrychiolydd clinigol o feysydd allweddol gofal eilaidd gan gynnwys Gofal Heb ei Drefnu, Gofal Wedi'i Drefnu a Gwasanaethau Teulu a Therapi; a
- chwe chynrychiolydd clinigol o'r Is-adran Gofal Sylfaenol/Rhwydweithiau, gan gynnwys cynrychiolaeth Arweinydd Meddyg Teulu ac Arweinydd Rhagnodi o'r Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth.

Mae'r cylch gorchwyl hefyd yn nodi y gall y Cadeirydd gynrychioli gofal sylfaenol neu ofal eilaidd, ond dylai'r Is-Gadeirydd ddod o'r sector gofal arall bob tro.

Mae lefelau presenoldeb a chyfranogi meddygon teulu yn y pwyllgor hwn yn dda sy'n awgrymu bod y trefniadau hyn yn gweithio'n dda.

Ceir un aelod lleyg nad yw'n pleidleisio o Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan. Er bod y cynrychiolydd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn, dylai'r Pwyllgor ystyried a oes lle i gynyddu cyfranogiad cynrychiolydd cleifion.

Mae'r aelodau yn cwmpasu ystod eang o arbenigeddau meddygol.



Yn ogystal â'r uchod, bwriedir i amrywiaeth o aelodau o bob maes rhanddeiliaid allweddol helpu i sicrhau cynrychiolaeth effeithiol, gan gynnwys:

- cynrychiolydd rhagnodi o'r Is-adran Gymunedol;
- cynrychiolydd rhagnodi o'r Is-adran Iechyd Meddwl;
- Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth;
- y Prif Ryngwyneb/ Cyffurlyfr Fferylllydd;
- pedwar aelod sy'n Fferyllwyr o fewn BIAB;
- cynrychiolydd o Adran Gyllid BIAB;
- un cynrychiolydd yr un o blith y canlynol:
Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Pwyllgor Meddygol Lleol Gwent Cyf (Gofal Sylfaenol);
Fferylliaeth Gymunedol Cymru (Gofal Sylfaenol); a
- cynrychiolydd rhagnodi nad yw'n feddygol (o ofal sylfaenol neu ofal eilaidd).

Cafwyd cyfranogiad da gan yr aelodau yn y sesiwn a arsylwyd gennym.

Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg (MTC) BIAB

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
<p>Mae'r blaenraglen yn cyflwyno'r rhaglen waith am y flwyddyn.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Caiff cwmpas eang gwaith yr MTC ei nodi'n glir yn ei gylch gorchwyl o dan bum prif bennawd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diogelwch meddyginiaethau; • costeffeithiolrwydd a datblygu'r cyffurlyfr; • datblygu llwybr meddyginiaeth a chyflyrau cronig; • integreiddio gofal sylfaenol ac eilaidd; ac • addysg. <p>Caiff y prif eitemau ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod eu grwpio gyda'i gilydd o dan y penawdau allweddol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • eitemau er gwybodaeth (gyda phenderfyniad neu hebdo); • arfarniadau o dystiolaeth (gan gynnwys cymwysiadau cyffurlyfr a chymeradwyaethau eithriadol nad ydynt yn ymwneud â chyffurlyfr); ac • eitemau i'w trafod (gan gynnwys gweithdrefnau gweithredu safonol, canllawiau lleol, canllawiau statudol NICE ac AWMSG, diogelwch cyffuriau). <p>Nid oes gan y Pwyllgor flaenraglen waith fanwl ar hyn o bryd er y caiff nifer o eitemau arfaethedig eu cynnwys yn ei adroddiad blynyddol. Gall fod lle i raglen waith fwy diffiniedig wrth ymdrin â materion sy'n cwmpasu'r tymor canolig i'r hirdymor, er enghraifft newid ymddygiadau rhagnodi ym maes gofal eilaidd a'u dylanwad ar ofal sylfaenol. Dylai'r pwyllgor adolygu'r angen am raglen waith fwy manwl o bryd i'w gilydd os bydd dulliau gweithredu strategol yn newid.</p>
<p>Mae'r MTC yn defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i lywio'r broses o wneud penderfyniadau</p>	<p>✓</p>	<p>Mae'r MTC yn defnyddio ystod eang o ffynonellau data i lywio ei brosesau gwneud penderfyniadau. Mae'n ofynnol iddo gynnal cysylltiadau agos ag amrywiaeth o bwyllgorau ac is-grwpiau er mwyn helpu i lywio ei brosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth BIAB; • Pwyllgor Meddygol Lleol Gwent; • Grŵp Polisi a Safonau Clinigol BIAB; • Panel IPTR BIAB; • Grŵp Gweithredu a Chydsynio NICE BIAB;

Pwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg (MTC) BIAB

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
		<ul style="list-style-type: none"> Gweithgor Gwrthficrobaidd BIAB; Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion BIAB; Pwyllgor Nwy Meddygol; a Rhwydwaith Gwybodaeth Leol, gweler y fframwaith rhwydweithiau. <p>Mae hefyd yn gweithredu fel pwynt cyfeirio cychwynnol ar gyfer materion yn ymwneud â meddyginiaethau neu ragnodi a godir gan y Grwpiau Cyngori/Arweinwyr Rhagnodi Ardal a grwpiau cyfarwyddiaeth e.e. Grŵp Meddyginiaethau a Therapiwteg yr Is-adran Iechyd Meddwl.</p>
Mae gan yr MTC broses gwneud penderfyniadau gadarn, systematig a thryloyw fel rhan o'i fframwaith llywodraethu cyffredinol.	✓	<p>Gwahoddir clinigwyr â diddordeb i wneud cais i gyflwyno cyffur newydd i'r cyffurlyfr ac am ddefnydd eithriadol o gyffur y tu hwnt i'r cyffurlyfr.</p> <p>Mae pob penderfyniad a wneir yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae canllawiau clir ar gael ar wefan yr MTC i helpu ymgeiswyr i ddilyn y broses hon.</p> <p>Pan fydd ymgeisydd wedi gwneud cyflwyniad, bydd aelodau'r MTC yn pleidleisio'n breifat ar p'un a ydynt yn derbyn y dystiolaeth ai peidio. Mae'r broses hon yn gweithio'n dda a chaiff ymgeiswyr wybod y canlyniad yn gyflym.</p>
Mae pob penderfyniad rhagnodi yn ystyried effaith arweinwyr o ran colledion ym maes gofal eilaidd ar ofal sylfaenol.	✓	Mae'r gwaith o ystyried effaith arweinwyr o ran colledion ym maes gofal eilaidd ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol yn rhywbeth y dywedodd staff ei fod yn un o sylfeini'r cyffurlyfr ar y cyd lleol.
Caiff penderfyniadau MTC eu cyfleu mewn modd amserol.	✓	<p>Caiff penderfyniadau MTC eu cyfleu'n gyflym drwy gylchlythyrau ac yn y cofnodion ar wefan MTC.</p> <p>Caiff cofnodion yr MTC eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion ac i nifer o bwyllgorau eraill y Bwrdd Iechyd, er gwybodaeth.</p>

Gwaith rhyngwyneb

Arfer disgwylidig

Y mater mwyaf sylweddol sy'n effeithio ar y gwaith o reoli meddyginiaethau ar gyfer y rhyngwyneb cyfan yw systemau cyfathrebu gwael ac ansawdd y wybodaeth a rennir rhwng rhagnodwyr. I hwyluso hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi neu brotocolau gwaith sy'n sicrhau bod meddyginiaethau a gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel o fewn rhyngwyneb gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

Ar waith?



Rhagor o wybodaeth


Ceir 24 o brotocolau a rennir, y mae pob un ar gyfer cyffur penodol. Mae'r holl brotocolau ar gael ar-lein drwy wefan yr MTC, sy'n golygu eu bod ar gael yn hawdd mewn un man i unrhyw un sydd am eu gweld.

Mae deg yn brotocolau gwasanaeth ychwanegol, y mae'r rhan fwyaf yn gyffuriau a ddefnyddir i drin mathau o arthrits. Mae protocolau gofal a rennir eraill ar gyfer cyffuriau a ddefnyddir i drin Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, diffygion hormon twf, Parlys Ochrol Amyotroffig, Clefyd Parkinson's, ffibrosis systig.

Mae pob un yn cynnwys gwybodaeth am gyfrifoldebau meddygon ymgynghorol a gofal sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn fformat safonol, sy'n nodi'n glir ar gyfer y defnyddiwr wybodaeth bwysig fel gwrtharwyddion, dognau, rhyngweithiadau cyffuriau, adweithiau andwyol i gyffuriau, ymchwiliadau sylfaenol a gwaith monitro.

Caiiff llythyrau rhyddhau amserol eu hanfon at feddygon teulu, sy'n cynnwys gwybodaeth glir a berthnasol er mwyn helpu i gefnogi penderfyniadau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol. Dylai'r rhain:

- nodi bod y claf mewn cyflwr sefydlog;
- cynnwys y rhesymau dros unrhyw newid mewn meddyginiaeth;
- nodi meddyginiaethau a argymhellir yn ôl eu henw generig a dosbarth therapiwtig;
- rhoi'r rheswm pam yr argymhellir unrhyw feddyginiaeth ag enw brand; a
- rhoi'r rheswm pam yr argymhellir cyffuriau heb drwydded neu oddi ar y label.



Er bod trefniadau rhyddhau electronig wedi cael eu cyflwyno, mynegodd meddygon teulu bryderon o hyd ynghylch diffyg gwybodaeth ragnodi mewn llythyrau rhyddhau, yr amser y mae'n ei gymryd i dderbyn llythyrau rhyddhau, a'r diffyg gwybodaeth i gleifion am y cyffuriau a roddir iddynt ar adeg eu rhyddhau. Mae hyn yn awgrymu bod lle o hyd i ddeall pa mor effeithiol y mae systemau rhyddhau electronig yn gweithio a pha welliannau y mae angen eu gwneud.

Roedd rhai meddygon teulu hefyd yn poeni am y nifer barhaus o geisiadau rhagnodi arbenigol mewn perthynas â chyffuriau nad ydynt yn y cyffurlyfr a chyffuriau goleuadau traffig 'coch' gan feddygon ymgynghorol i barhau â hwy ym maes gofal sylfaenol. Dylai'r MTC sicrhau bod proses fonitro reolaidd ar waith a bod gwaith dilynol yn cael ei wneud fel y bo'n briodol ar gyfer rhagnodi cyffuriau nad ydynt yn y cyffurlyfr a chyffuriau goleuadau traffig 'coch' i barhau â hwy ym maes gofal sylfaenol.

Rhagnodi mewn ffordd ddiogel, effeithiol a darbodus

13. Mae'r Bwrdd lechyd wedi rhagori ar ei gynlluniau ar gyfer 2012-13 i leihau gwariant ar gyffuriau ym maes gofal sylfaenol ac mae'n un o'r goreuon o ran ei berfformiad mewn perthynas â nifer o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, ond mae lle i wella ansawdd gwaith rhagnodi a'r defnydd darbodus o rai cyffuriau o hyd. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
- **Pennu cyllideb a pherfformiad ariannol:** Rhagamcanwyd y byddai gwariant y Bwrdd lechyd ar gyffuriau ym maes gofal sylfaenol ar gyfer 2012/13 yn £104 miliwn, o gymharu â £107 miliwn ar gyfer 2011/12. Yn gyffredinol, rhagorwyd ar y targed arbedion rheoli meddyginiaethau ar gyfer y flwyddyn, a ategwyd gan gynydd is yn y defnydd o Dabigatran ym maes gofal sylfaenol a rhagnodi Atorfastatin yn briodol.
 - **Gwaith monitro ariannol:** Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng y partneriaid busnes cyllid a'r Penaethiaid Rhagnodi a Rheoli Meddyginiaethau er mwyn adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad a gweithgareddau, Defnyddir y cyfarfodydd hyn i helpu i nodi'r meysydd sydd angen ffocws ychwanegol.
 - **Gwariant cyffredinol ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol:** Mae gwariant y Bwrdd lechyd yn uwch na'r cyfartaledd yn y rhan fwyaf o feysydd (**Atodiad 2**). Er enghraifft, o blith yr holl fyrddau iechyd, Aneurin Bevan sy'n gwario'r mwyaf ar gyffuriau gastro-berfeddol ac yn rhagnodi'r nifer fwyaf ohonynt. Er y gall y sefyllfa hon, a rhai eraill sy'n debyg, gael eu cyfiawnhau, mae angen i'r rhesymau dros y fath wariant gael eu deall gan eu bod yn cyflwyno meysydd posibl ar gyfer gwell rhagnodi a thargedu cymorth rhagnodi ymhellach.
 - **Dangosyddion rhagnodi effeithiol**
 - Rydym wedi amcangyfrif, drwy wella perfformiad, fod potensial i arbed hyd at £1.96 miliwn heb effeithio ar ofal cleifion.
 - Mae gan y Bwrdd lechyd y potensial i wella prosesau rhagnodi generig a allai arbed tua £600k.
 - Er bod y Bwrdd lechyd wedi llwyddo i leihau nifer y diodydd ategu a ragnodir, gellid lleihau'r gwariant fesul eitem.
 - Mae nifer y gorchuddion gwrthficrobaidd a ragnodir gan feddygon teulu, fel cyfran o'r holl orchuddion, yn gymharol isel am fod gan y Bwrdd lechyd gyffurlyfr hirsefydledig ar waith ar gyfer y gorchuddion hyn er mwyn ategu gwaith rhagnodi ar sail resymegol.
 - Mae'r Bwrdd lechyd yn gwario £500,000 ar ddyfeisiau anymataliaeth (20 y cant o wariant yng Nghymru), sy'n awgrymu bod potensial i wella ymhellach y gwaith o reoli gwasanaethau ymataliaeth lleol drwy weithio gydag arbenigwyr fel rhan o broses ragnodi ar sail resymegol hirdymor yn y maes hwn.
 - **Dangosyddion rhagnodi cenedlaethol**
 - Mae perfformiad y Bwrdd lechyd mewn perthynas â dangosyddion rhagnodi cenedlaethol yn amrywio.

- Os edrychir ar berfformiad cyfredol yn erbyn dangosydd PPI 2012, gwelir bod gan y Bwrdd lechyd un o'r cyfraddau rhagnodi isaf o ran PPI cost gaffael isel yng Nghymru a gallai ailystyried y defnydd o PPIau ac esomeprasol wella prosesau rhagnodi effeithiol ac arbed hyd at £350,000 efallai.
- Mae gan y Bwrdd lechyd un o'r cyfraddau rhagnodi gorau ar gyfer y naw cyffur gwrthfacterol mwyaf cyffredin yng Nghymru, ond mae'n rhagnodi'r nifer pedwerydd uchaf o'r holl gyffuriau gwrthfacterol ledled Cymru sy'n awgrymu bod mwy o le i wella prosesau rhagnodi ar sail resymegol yn y meysydd hyn.
- Mae meddygon teulu yn ardal y Bwrdd lechyd yn defnyddio mwy o gyffuriau seffalofforin nag ardaloedd byrddau iechyd eraill sy'n fater o ansawdd ac mae'n cynyddu'r risg o ymwrthedd gwrthfotig pan fo'r bwrdd iechyd eisoes yn profi un o'r lefelau cymharol uwch o C. difficile yng Nghymru.
- Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd lechyd yn rhagnodi'r gyfradd trydydd uchaf o ddoswlepin yng Nghymru, a gydnabyddir ganddo, ac fel rhan o CEPP caiff practisau meddygon teulu sydd â photensial i wella prosesau rhagnodi eu targedu.
- Mae gan y Bwrdd lechyd gyfradd ragnodi is ar gyfer cyffuriau cwsg a gwrthbryder na'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd eraill sy'n arfer da ac yn adlewyrchu'r gwaith a wneir gan feddygon teulu a'r tîm rheoli meddyginiaethau. Dylai'r gwaith o gynnal a gwella'r perfformiad hwn fod yn rhan o strategaeth rheoli meddyginiaethau'r Bwrdd lechyd yn y dyfodol.
- **Adrodd ar adweithiau andwyol i gyffuriau:** Mae cyfraddau adrodd wedi parhau i ostwng a phrin yw'r dystiolaeth o fewn dull gweithredu cyfredol y Bwrdd lechyd y caiff y fath berfformiad ei wyrdroi.

14. Gwastraff cyffuriau: Mae'r Bwrdd lechyd yn targedu gwastraff, er nad yw ei lwyddiant cymharol hyd yma yn glir am nad yw'r systemau monitro, dadansoddi a chofnodi wedi'u datblygu'n dda eto. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad hwn.

Pennu cyllideb a pherfformiad ariannol

Arfer disgwylidig

Mae angen mynd ati i bennu cyllideb rhagnodi gofal sylfaenol mewn ffordd glir sydd:

- yn deg ac yn ddigonol i ddiwallu anghenion clinigol cleifion;
- yn ystyried cynnydd mewn rhagnodi a fydd yn ofynnol er mwyn gwella'r agweddau clinigol ar ragnodi;
- yn ystyried gwelliannau i gosteffeithiolrwydd rhagnodi sydd eu hangen; ac
- yn defnyddio methodoleg agored a thryloyw.

Ar waith?

✓/x

Rhagor o wybodaeth

Mae'r gyllideb ragnodi yn seiliedig ar gario cyllideb y flwyddyn flaenorol ymlaen. Er bod nifer o gyffuriau wedi dod oddi ar batent yn ddiweddar, disgwyliwyd i'r gyllideb aros yr un peth â'r flwyddyn flaenorol.

Pennu cyllideb a pherfformiad ariannol

Arfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae gwariant ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol yn dal i fod o fewn y gyllideb a chyflawnir targedau o ran arbedion.	✓	Arhosodd gwariant cyffredinol ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol o fewn y gyllideb a rhagorwyd ar dargedau o ran arbedion. Roedd cyfran sylweddol o'r llwyddiant hwnnw o ganlyniad i effaith ymdrechion y timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau i gyflawni twf llai na'r disgwyl mewn rhagnodi dabigatran a rhagnodi Atorfastatin yn briodol.
Cyflawnir gwaith monitro ariannol ar lefel tîm a chymerir camau os na chyflawnir targedau.	✓	Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng y partneriaid busnes cyllid a'r timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau er mwyn adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad a gweithgareddau, Defnyddir y cyfarfodydd hyn i helpu i nodi'r meysydd sydd angen ffocws ychwanegol.
Cyflawnir gwaith monitro ariannol ar lefel bwrdd.	✓	Mae'r Bwrdd Rheoli Meddyginiaethau yn derbyn adroddiadau ariannol misol ar ragnodi. Mae'r Prif Weithredwr yn arwain sesiynau Cefnogi a Herio, y mae'n rhaid i isadrannau eu mynychu i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad o ran targedau gwella costau. Mynychodd cynrychiolwyr o'r timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau'r sesiynau hyn bob pythefnos am gyfnod. O ganlyniad i'r cynnydd a wneir tuag at dargedau, gan gynnwys arbedion o gyffuriau a ddaeth oddi ar batent, roedd modd iddynt eu mynychu'n llai aml.

Gwariant cyffredinol ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol

Arfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
Mae'r rhesymau dros wariant cyfredol y Bwrdd Iechyd ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol yn hysbys ac yn cael eu deall.	✓/x	Gwnaethom gynnal dadansoddiad o wariant a thueddiadau rhagnodi rhwng byrddau iechyd, ar sail y 15 o benawdau Pennod BNF ac fe'i haddaswyd yn ôl y boblogaeth (gweler Atodiad 2 am ddadansoddiad o wariant). Y chwe maes â'r gwariant uchaf yng Nghymru yw: <ul style="list-style-type: none"> • cyffuriau gastro-berfeddol; • cyffuriau cardiofasgwlaidd;

Gwariant cyffredinol ar ragnodi ym maes gofal sylfaenol

Arfer disgwyliedig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
		<ul style="list-style-type: none"> cyffuriau anadlol; cyffuriau system nerfol ganolog; chyffuriau endocrin; a cyffuriau maeth a gwaed. <p>Mae lefelau rhagnodi a gwariant uwchlaw'r cyfartaledd mewn pedwar o'r meysydd hyn (Atodiad 2) ac mae eisoes yn darparu'r ffocws ar gyfer gweithgarwch a'r defnydd o adnoddau. Nid ymdriniwyd â meysydd eraill eto gan gynnwys rhagnodi gastro-berfeddol a allai gynnig ffocws i weithgarwch ac enillion yn y dyfodol.</p>

15. Mae'r tablau isod yn crynhoi perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion rhagnodi a adolygwyd fel rhan o'r archwiliad. Rhoddir cymariaethau graffigol ychwanegol yn **Atodiad 3** o'r adroddiad.

Dangosyddion rhagnodi effeithiol

Arfer disgwyliedig	Rhagor o wybodaeth
Gall y Bwrdd Iechyd gyflawni rhagor o arbedion drwy gyfateb i lefelau rhagnodi cyffredinol o fewn y chwarter gorau o bractisau meddygon teulu.	Amcangyfrifwn y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud arbedion blynyddol ychwanegol o hyd at £2.0 miliwn heb effeithio ar ofal cleifion (gweler Atodiad 1 am fanylion). Er mwyn cyflawni rhai o'r arbedion hyn, neu bob un, bydd angen cymryd camau parhaus yn y tymor canolig.
Mae gan y Bwrdd Iechyd lefelau uchel o ragnodi generig sy'n cyfateb i berfformiad y chwarter gorau o feddygon teulu (85 y cant) sy'n adlewyrchu rhagnodi o ansawdd uchel gan gynnwys gwallau a chostau is. Er mwyn lleihau effaith amrywiad, datblygwyd basged o gyffuriau cyffredin a ragnodir â chyffuriau cyfatebol generig (Atodiad 3) er mwyn nodi arbedion y gellir eu cyflawni drwy wella prosesau rhagnodi generig.	Petai'r fasedged yn cael ei rhagnodi'n generig byddai modd arbed £667,000 Atodiad 3: Arddangosyn 9 . Awgrymu bod lle o hyd i wella prosesau rhagnodi generig drwy ymyriadau a chymorth penodol.
Mae'r BNF yn disgrifio nifer o gyffuriau sy'n llai addas i'w rhagnodi am eu bod o werth clinigol cyfyngedig, fe'u disodlwyd gan gyffuriau mwy effeithiol neu mae ganddynt sgil-ffeithiau sylweddol. Petai 50 y cant o'r presgripsiynau ar y cyfuniadau hyn yn dirwyn i ben yna gallai'r	Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £328,000 ar y cyfuniadau hyn ar hyn o bryd (Atodiad 3: Arddangosyn 10). Mae hyn yn awgrymu y gallai'r Bwrdd Iechyd achub ar hyd at werth £164,000 o gyfleoedd ansawdd ac arbedion petai gwelliannau yn cael eu gwneud yn y maes hwn. Mae'r tîm Rheoli Meddyginiaethau yn ystyried y potensial i

Dangosyddion rhagnodi effeithiol

Arfer disgwylidig

Bwrdd Iechyd gyflawni arbedion.

Ni welodd NICE unrhyw dystiolaeth gadarn o ran effeithiolrwydd rhagnodi glwcosamin ac o ganlyniad nid argymhellwyd ei ragnodi gan y GIG.

Petai meddygon teulu yn rhoi'r gorau i ragnodi glwcosamin yna gallai'r Bwrdd Iechyd gyflawni arbedion.

Mae NICE wedi nodi nifer o gyffuriau nad argymhellir eu defnyddio'n rheolaidd. Mae perfformiad yn erbyn basged o gyffuriau¹ yn y categori hwn yn adlewyrchu arferion effeithiol a diogel o ran rhagnodi ym maes gofal sylfaenol.

Rhagor o wybodaeth

wella gweithgarwch rhagnodi yn y maes hwn ac mae rhagnodi fitamin B eisoes wedi'i nodi ar gyfer camau gweithredu posibl.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda yn y maes hwn, sy'n awgrymu bod trefniadau lleol yn gweithio'n dda (**Atodiad 3**): **Arddangosyn 11**).

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £25,000 (**Atodiad 3**: **Arddangosyn 12**), sy'n awgrymu er bod rhai materion rhagnodi ar sail resymegol, prin yw'r cyfleoedd o ran ansawdd ac arbedion ariannol.

Rhagnodi ar reoli clwyfau, ychwanegion bwyd a chynhyrchion anymataliaeth

Arfer disgwylidig

Gorchuddion gwrthficrobaidd
Er y caiff gorchuddion gwrthficrobaidd eu defnyddio'n eang mae dystiolaeth o'u defnydd ym maes gofal sylfaenol yn gyfyngedig ac o ansawdd gwael. O ystyried yr holl orchuddion sydd ar gael, diffyg cyngor penodol mewn canllawiau cenedlaethol a chydabod cyfyngiadau ariannol, mae cyffurlyfrau lleol yn fodd i resymoli'r dewis o orchuddion. Gallai'r Bwrdd Iechyd gyflawni arbedion drwy symud pob meddyg teulu tuag at y lefelau o orchuddion clwyfau gwrthficrobaidd a ragnodir ar gyfer y Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau.

Ychwanegion bwyd
Cafodd sail dystiolaeth ychwanegion maethol geneuol eu hasesu gan NICE a daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad, hyd nes y bydd rhagor o dystiolaeth ar gael, y dylai pobl sy'n colli pwysau o ganlyniad i salwch naill ai gael eu rheoli drwy eu hatgyfeirio i ddietygydd,

Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £2.3 miliwn ar orchuddion clwyfau ac mae 4.1 y cant o'r holl orchuddion a ragnodir gan y Bwrdd Iechyd yn rhai gwrthficrobaidd, sy'n gymharol isel o gymharu â byrddau iechyd eraill am fod gan y Bwrdd Iechyd gyffurlyfr hirsefydledig ar waith ar gyfer y gorchuddion hyn er mwyn ategu gwaith rhagnodi ar sail resymegol. Nid yw'r fath berfformiad yn cynnig llawer o gyfle i gyflawni gwelliannau ychwanegol nac unrhyw arbedion sylweddol (gweler **Atodiad 3**): **Arddangosyn 13**).

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario £415,888 ar ychwanegion bwyd am gost gyfartalog o £34.88 yr eitem (gweler **Atodiad 3**: **Arddangosyn 14**). Mae ein dadansoddiad o wariant yn ôl penodau BNF (**Atodiad 2**) yn dangos bod defnydd uwch na'r cyfartaledd yn y maes hwn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i leihau nifer yr ychwanegion bwyd a ddefnyddir ym mhob ardal drwy weithredu cynllun lle

¹ Roedd y fasedd hon yn cynnwys Alisciren, Cilostasol, Roflwmilast, Linagliptin, Paricalsitol ac Asid Hyalwronic (Sodiwm).

Rhagnodi ar reoli clwyfau, ychwanegion bwyd a chynhyrchion anymataliaeth

Arfer disgwylidig

neu gan staff sy'n defnyddio protocolau a luniwyd gan ddeietegwyr, gyda chyfeiriad fel y bo angen. Awgrymodd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru o wasanaethau arlwyysbytai na chaiff ychwanegion maethol eu rheoli'n dda yn y gymuned; mae costau a gwastraff yn uchel.

Petai cost yr eitem yn lleihau i'r gost gyfartalog isaf yng Nghymru gallai'r Bwrdd lechyd gyflawni arbedion. Gellid cyflawni rhagor o arbedion petai llai o eitemau ar gael.

Cynhyrchion anymataliaeth a stoma
Nododd archwiliad cenedlaethol o anymataliaeth yn 2010 fod y rhan fwyaf o wasanaethau anymataliaeth wedi'u hintegreiddio'n wael mewn lleoliadau aciwt, meddygol, llawfeddygol, sylfaenol, cartrefi gofal a chymunedol, gan arwain at ofal anghydlynus i gleifion a gofalwyr. O fewn gofal sylfaenol, caiff dyfeisiau anymataliaeth a stoma eu rhoi i gleifion fel arfer drwy bresgripsiwn a ysgrifennir gan eu meddyg teulu neu ragnodydd nyrsio. Yna caiff y presgripsiwn hwn ei ddsbarthu gan naill ai gontractwr dyfeisiau sy'n dosbarthu, contractwr fferyllfa neu feddyg dosbarthu. Drwy ganolbwyntio ar wella ansawdd a niferoedd ym maes rhagnodi cynhyrchion anymataliaeth a stoma gellid cyflawni arbedion.

Rhagor o wybodaeth

defnyddir deietegwyr i weithio gyda chartrefi gofal ar well maeth i bobl hŷn. Mae costau cyfartalog fesul eitem yn uwch na rhai byrddau iechyd a all fod yn ffocws ar gyfer gwaith newydd.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd lechyd yn gwario £3.4 miliwn ar ddyfeisiau stoma (20 y cant o wariant yng Nghymru) a £500,000 ar ddyfeisiau anymataliaeth (20 y cant o wariant yng Nghymru) (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 15](#)). Er bod gwariant ar gynhyrchion anymataliaeth yn gyfartalog, mae'r gwariant ar gynhyrchion stoma yn uwch sy'n awgrymu bod lle i weithio gydag arbenigwyr er mwyn adolygu gofal yn y maes hwn.

Perfformiad yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2011-12

Arfer disgwylidig

Rhagnodi atalyddion ACE
Meddyginiaethau a ddefnyddir yn aml i drin pwysedd gwael uchel yw Atalyddion ACE (atalyddion ensym trawsnewid angiotensin). Yn ôl Canllawiau Clinigol NICE (CG34), roedd cysylltiad agos rhwng buddiannau atalyddion ACE a gwrthweithyddion derbyn angiotensin-II er, oherwydd gwahaniaethau mewn cost, dylid defnyddio atalyddion ACE

Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd lechyd y perfformiad trydydd gorau yng Nghymru yn erbyn y dangosydd hwn (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 16](#)). Petai'r Bwrdd lechyd yn gallu cyrraedd lefelau perfformio yn y chwarter gorau byddai'n arbed £82,000 ([Atodiad 3: Arddangosyn 17](#)). **Mae'r perfformiad hwn yn awgrymu bod lle i wella ansawdd rhagnodi yn y maes hwn o hyd.**

Perfformiad yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2011-12

Arfer disgwyliedig

yn gyntaf.

Drwy gyfateb i'r chwarterel o feddygon teulu sy'n perfformio orau byddai modd cyflawni arbedion.

Atalyddion Pwmp Proton (PPlau)

Defnyddir PPlau i drin clefyd adlif oesoffagaidd, dispepsia neu wiserau gastrig. Er bod pryderon yn cael eu codi bellach ynghylch diogelwch rhagnodi PPlau yn yr hirdymor, mae NICE yn argymhell y dylid defnyddio'r PPI rhataf.

Drwy gyfateb i'r chwarterel o feddygon teulu sy'n perfformio orau byddai modd cyflawni arbedion.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd ymhlith un o rhagnodwyr isaf PPlau cost gaffael isel yng Nghymru (gweler [Atodiad 3](#): Arddangosyn 18). Byddai cynyddu eu defnydd fel cyfran o PPlau yn golygu y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud arbedion posibl a phetai perfformiad yn cyfateb i'r chwarterel gorau byddai hyn yn cyfateb i £350,000 (gweler [Atodiad 3](#): Arddangosyn 19). Mae'r arbedion posibl hyn yn adlewyrchiad pellach o sefyllfa gymharol y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â lefelau rhagnodi cyffredinol a gwariant ar gyffuriau gastro-berfeddol (gweler [Atodiad 2](#)).

Perfformiad yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2013-13

Arfer disgwyliedig

Cyffuriau gwrthlidiol nad ydynt yn steroidau ibuprofen a naprocsen (NSAIDau)

Mae NSAIDau yn feddyginiaeth a ddefnyddir yn eang i leddfu poen, lleihau llid a lleihau twymyn. Ceir tystiolaeth gref i ostwng cyfraddau rhagnodi NSAIDau yn enwedig i'r henoed. Os oes rhaid rhagnodi NSAIDau, er mwyn lleihau'r risg derbynnir mai ibuprofen a naprocsen yw'r dewis cyntaf.

Drwy gyfateb i'r chwarterel o feddygon teulu sy'n perfformio orau byddai modd cyflawni arbedion.

Statinau cost gaffael isel

Mae canllawiau presennol NICE yn hyrwyddo'r defnydd o statinau cost gaffael isel fel triniaeth dewis cyntaf ar gyfer y rhan fwyaf o bobl â chlefyd fasnwlaid atherosclerotig sefydledig, y rhai â diabetes ac eraill â risg uchel o glefyd cardiofasgwlaidd (CVD). Gwelwyd mai dyma'r ymyriad mwyaf costeffeithiol.

Drwy gyfateb i'r chwarterel o feddygon teulu sy'n perfformio orau byddai modd cyflawni arbedion.

Rhagor o wybodaeth

Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r lefelau perfformio gorau yng Nghymru (gweler [Atodiad 3](#): Arddangosyn 20). Mae parhau i ganolbwyntio ar wella gweithgareddau rhagnodi yn y maes hwn nid yn unig yn gwella ansawdd gofal ond gallai hefyd ryddhau rhywfaint o arbedion (gweler [Atodiad 3](#): Arddangosyn 21).

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda o gymharu â byrddau iechyd eraill sy'n adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir i wella perfformiad yn y maes hwn gan y tîm rhagnodi ym maes gofal sylfaenol (gweler [Atodiad 3](#): Arddangosyn 22). Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar wella systemau rhagnodi er mwyn perfformio yn y chwarterel gorau o feddygon teulu. Mae'r gwahaniaeth cost rhwng cyfraddau rhagnodi presennol a chyfateb i'r perfformiad gorau yn £298,000 (gweler [Atodiad 3](#): Arddangosyn 23).

Perfformiad yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2013-13

Arfer disgwyliedig

Inswlin hirdymor ar gyfer diabetes math 2

Mae canllawiau NICE ar reoli math 2 diabetes yn argymhell, pan fo angen darparu therpai inswlin, y dylid defnyddio inswlin isoffan dynol (NPH). Yn achos y rhan fwyaf o bobl â diabetes math 2, ni fydd analogau inswlin hirdymor o unrhyw fantais fawr o gymharu ag inswlin NPH dynol, a bydd yn llawer drutach.

Drwy gyfateb i'r chwarterl o feddygon teulu sy'n perfformio orau byddai modd cyflawni arbedion.

Opioidau i ryddhau poen

Mae gan opioidau rôl hirsefydledig yn y gwaith o reoli poen aciwt yn dilyn trawma (gan gynnwys llawdriniaeth) a rheoli poen sy'n gysylltiedig â salwch angheuol.

Drwy gyfateb i'r chwarterl o feddygon teulu sy'n perfformio orau byddai modd cyflawni arbedion.

Rhagnodi gwrthfacterol - y naw eitem fwyaf cyffredin

Mae canllawiau'r Asiantaeth Diogelu Iechyd yn nodi'r driniaeth fwyaf priodol a gwrthfotigau ar gyfer heintiau cyffredin a brofir ym maes gofal sylfaenol. Mae'r naw cyffur gwrthfacterol mwyaf cyffredin yn ddigonol i drin y canlynol: heintiau llwybrau anadlu uchel ac isel, heintiau llwybrau wrinol (UTIau) a heintiau croen cyffredin. Mae'r defnydd o wrthfotigau generig syml ac osgoi gwrthfotigau sbectrum eang (er enghraifft cyd-amocsiclaflaf, cwinolinâu a seffalosborinau) yn lleihau'r risg y mae bacteria ymwrthol yn ei pheri nawr ac ar gyfer y dyfodol.

Y targed yw 83.58 y cant ar gyfer y naw cyffur gwrthfacterol mwyaf cyffredin fel canran o eitemau gwrthfacterol.

Rhagnodi gwrthfacterol – cyfradd ragnodi gyffredinol

Mae Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Cymru yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd darbodus o wrthficrobau.

Gallai'r gwaith o ddatblygu rhaglen strwythuredig i ostwng cyfraddau rhagnodi

Rhagor o wybodaeth

Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r cyfraddau rhagnodi gorau yng Nghymru sy'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed gan y tîm rheoli meddyginiaethau yn y maes hwn (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 24](#) ac [Arddangosyn 25](#)). Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar wella gofal sy'n arfer da.

Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd y lefel pedwerydd uchaf o ragnodi morffin fel canran o eitemau opioid cryf yng Nghymru (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 26](#)). Mae'r perfformiad hwn yn gyfartalog. Petai'r Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni perfformiad gorau gallai arbed £240,000 (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 27](#)).

Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r lefelau perfformio gorau ar gyfer rhagnodi'r naw [cyffur gwrthfacterol mwyaf cyffredin yng Nghymru](#) (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 28](#)). O ganlyniad i'r risgiau sydd ynghlwm wrth gyfraddau rhagnodi gwrthfacterol uchel mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar y maes hwn a lleihau ei ddefnydd yn gyffredinol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagnodi'r nifer pedwerydd uchaf o'r holl gyffuriau gwrthfacterol yng Nghymru ([Atodiad 3: Arddangosyn 29](#)).

Perfformiad yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2013-13

Arfer disgwyliedig

gwrthfotig gan feddygon teulu leihau ymwrthedd gwrthfotig posibl rhag datblygu'n lleol.

Y targed yw 329 o eitemau fesul 1,000 STAR-PU.

Rhagor o wybodaeth

Y defnydd o wrthfotigau sbectrwm eang

Mae cysylltiad rhwng y defnydd o gwinolin a nifer yr achosion o ddolur rhydd sy'n gysylltiedig â C. difficile felly dylid cyfyngu ar ei ddefnydd i ddynodiadau penodol er mwyn lleihau'r risg o ymwrthedd gwrthficrobaidd posibl. Amcangyfrifwyd bod haint C. difficile yn costio £4,007 ar gyfartaledd sy'n dangos bod canlyniadau system gyfan a hirdymor posibl yn deillio o beidio â rheoli gweithgareddau rhagnodi cwinolin Mae seffalosborinau yn wrthfotigau sbectrwm eang a ddefnyddir i drin septisemia, niwmonia, llid yr ymennydd, heintiau llwybrau bustlog, llid y berfedden ac UTIau. Dylid cyfyngu ar eu defnydd i ddynodiadau penodol er mwyn lleihau'r risg o ymwrthedd gwrthficrobaidd posibl.

Pennwyd targedau fel canran o'r holl gyffuriau gwrthfacterol a ragnodir:

- seffalosborinau 3.14 y cant;
- cyd-amocsiclaflaf 2.99 y cant; a
- chwinolinau 1.42 y cant.

Mae meddygon teulu yn ardal y Bwrdd Iechyd yn defnyddio mwy o'r sbectrwm eang Seffalosborinau (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 30](#)) na llawer o'u cydweithwyr mewn ardaloedd bwrdd iechyd eraill. Mae hyn yn awgrymu bod rhywfaint o le i wella ansawdd rhagnodi yn y maes hwn ac y gellid gwneud mwy yn strategol, er mwyn lleihau unrhyw ymwrthedd gwrthfacterol yn y dyfodol yn enwedig gan fod y Bwrdd Iechyd eisoes yn profi un o'r cyfraddau uchaf o heintiau C. difficile mewn ysbytai.

Doswlepin

Cyffur gwrth-iselder yw Doswlepin, a ddefnyddiwyd yn hanesyddol lle mae angen cael effaith gwrth-bryder neu dawelu; fodd bynnag, ceir ychydig bach o ddiogelwch rhwng y dogn therapiwtig uchaf a dogn a allai fod yn angheuol. Ar hyn o bryd, mae canllawiau NICE yn datgan na ddylid newid i ddoswlepin na dechrau ei gymryd gan fod tystiolaeth sy'n ategu ei drothwy mewn perthynas â chyffuriau gwrth-iselder eraill yn cael ei gorbwyso gan y risg gardiaidd uwch a gwenwyndra mewn gorddos.

Y targed yw 52.15 DDD fesul 1000 PU.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagnodi'r lefel trydydd uchaf o Ddoswlepin yng Nghymru, sy'n awgrymu y gellid gwneud mwy yn y maes hwn i wella gweithgareddau rhagnodi ar sail resymegol drwy gamau wedi'u targedu (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 32](#)). Er mwyn bodloni canllawiau NICE, dylai'r timau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol a rheoli meddyginiaethau dargedu'r maes hwn o ran lleihau defnydd ar y cyd â staff iechyd meddwl.

Cyffuriau cwsg a gwrthbryder

Bu pryderon ynghylch y lefel uchel o ragnodi

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagnodi llai o gyffuriau cwsg a gwrthbryder fesul 1000 o gleifion na'r rhan fwyaf o'r

Perfformiad yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol 2013-13

Arfer disgwylidig

cyffuriau cwsg a gwrthbryder yng Nghymru. Cydnabyddir y gall peth rhagnodi fod yn amhriodol a chyfrannu at broblem caethiwed a chelu iselder sylfaenol. Hefyd, mae canlyniadau system gyfan ynghlwm wrth gostau ychwanegol darparu gwasanaethau caethiwed i reoli dibyniaeth.

Drwy ganolbwyntio ar ostwng cyfraddau rhagnodi cyffuriau cwsg a gwrthbryder dylai fod modd gwella ansawdd gofal a lleihau'r risg i gleifion.

Y targed yw 1402 DDD fesul 1000 PU.

Rhagor o wybodaeth

byrddau iechyd eraill yng Nghymru, sy'n adlewyrchu gweithgarwch parhaus y tîm rhagnodi ym maes gofal sylfaenol yn y maes hwn (gweler [Atodiad 3: Arddangosyn 33](#)). Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn oherwydd y costau system gyfan sy'n gysylltiedig â rheoli dibyniaeth.

Monitro adweithiau andwyol i gyffuriau (ADR)

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
<p>Caiff y Cynllun Cerdyn Melyn ei redeg gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a'r Comisiwn Meddyginiaethau Dynol (CHM) ac fe'i defnyddir i gasglu gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd am sgil-ffeithiau a amheuir neu adweithiau andwyol i feddyginiaeth. Mae'r cynllun hwn yn hanfodol o ran helpu'r MHRA i fonitro diogelwch y meddyginiaethau a'r brechiadau sydd ar y farchnad.</p> <p>Tynnodd gwaith y Comisiwn Archwilio yn 1998 sylw at lefelau adrodd isel ar gyfer ADRau yng Nghymru ac nid yw'r sefyllfa hon wedi gwella. Mae AWMSG wedi cytuno y caiff y Cynllun Cerdyn Melyn ei ddefnyddio fel cymharydd lleol ledled Cymru. Ynghyd â hyn, mae YCC Cymru wedi datblygu rhaglen addysg sydd ar gael i feddygon teulu a byrddau iechyd.</p> <p>Atodiad 4: Mae Arddangosyn 37 yn nodi arfer da o ran hyrwyddo a gwella cyfraddau adrodd.</p>	<p>x</p>	<p>Atodiad 4: Mae Arddangosyn 34 yn dangos bod cyfraddau adrodd ADR y Bwrdd Iechyd wedi gostwng rhwng 2010-11 a 2011-12, gan adlewyrchu'r duedd am i lawr barhaus (gweler Atodiad 4: Arddangosyn 35).</p> <p>Atodiad 4: Mae Arddangosyn 36 yn dangos nifer yr adroddiadau ADR fesul 100,000 o'r boblogaeth o ffynonellau cymunedol, yn ôl bwrdd iechyd.</p> <p>Fel rhan o'i ddull strategol o wella cyfraddau rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wella cyfraddau adrodd ADR.</p>

Gwastraff cyffuriau

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod cyffuriau a gaiff eu gwastraffu yn costio £50 miliwn bob blwyddyn.</p> <p>Gallai'r Bwrdd Iechyd leihau gwastraff hyd at 50 y cant.</p>	<p>x</p>	<p>Gan dybio bod y lefelau yn gyson ledled Cymru amcangyfrifwn fod cyffuriau a gaiff eu gwastraff yn costio £9.6 miliwn. Petai'r Bwrdd Iechyd yn gallu gostwng hyn 50 y cant, gellid arbed hyd at £4.8 miliwn (Atodiad 5: Arddangosyn 37).</p>
<p>Mae gan y Bwrdd Iechyd wybodaeth am lefelau gwastraff meddyginiaeth, er enghraifft cynhaliwyd archwiliadau.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin â'r gwaith o reoli gwastraff mewn modd eang. Mae'n defnyddio fframwaith sy'n mapio'r ffordd y gall meddyginiaethau gael eu gwastraffu a'r ymatebion posibl. Nid yw'n glir i ba raddau y defnyddiwyd hyn eto i leihau gwastraff.</p>

Gwastraff cyffuriau

Arfer disgwylidig	Ar waith?	Rhagor o wybodaeth
<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r contract fferylliaeth gymunedol i leihau gwastraff, er enghraifft cymell y gwaith o reoli meddyginiaethau ar ddechrau'r broses ddsbarthu.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Gwnaed rhywfaint o waith dros amser, gan ddefnyddio'r contract fferylliaeth gymunedol, er mwyn helpu i leihau gwastraff e.e. adolygu'r defnydd o feddyginiaethau; Gwasanaeth Fferylliaeth Ychwanegol - Cynllun Lleihau Gwastraff. Prin yw'r dystiolaeth o effaith barhaus hyd yma.</p> <p>Barn gymysg oedd gan feddygon teulu a staff ynghylch gwerth Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau (MURau) gan fferyllwyr cymunedol. Yn hanesyddol, nid oedd yr arbedion a oedd yn deillio o'r adolygiadau hyn yn cael eu clustnodi, gan leihau'r cymhelliant i fferyllwyr weithredu'r fath gynlluniau. Mae fferyllwyr hefyd wedi awgrymu bod angen targedu fferyllwyr cymunedol i weithredu MURau e.e. adolygu'r defnydd o anadlyddion gan gleifion anadlol er mwyn lleihau derbyniadau a gwella cyfraddau cadw at y feddyginiaeth; a hefyd dargedu MURau ar gyfer cynlluniau cyflyrau cronig.</p>
<p>Mae ymgyrchoedd gwastraff meddyginiaeth lleol ar waith a chaiff eu heffeithiolrwydd ei fonitro.</p>	<p>✓/x</p>	<p>Cydnabyddir bod gwastraff meddyginiaethau yn fater pwysig ac ymunodd y Bwrdd Iechyd â'r ymgyrch lleihau gwastraff ranbarthol yn ddiweddar.</p>
<p>Helpu meddygon teulu i wella trefniadau amlbresgripsiynau.</p>	<p>✓</p>	<p>Mae pob practis yn cymryd rhan mewn adolygiadau o amlbresgripsiynau, fel rhan o'r Rhaglen Rhagnodi Effeithiolrwydd Clinigol (CEPP).</p>

Atodiad 1

Crynodeb o'r arbedion posibl

Rhydd yr atodiad hwn grynodeb o'r arbedion posibl, a nodwyd o berfformiad cymharol y Bwrdd Iechyd yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion rhagnodi (gweler [Atodiad 3](#)). Dengys y tabl isod sail y cyfrifiadau o ran arbedion a ddefnyddiwyd.

Dangosydd	Sail y cyfrifiadau o ran arbedion a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn
Cyfraddau rhagnodi generig	<p>Mae'r chwartel gorau o bractisau meddygon teulu yng Nghymru yn cyflawni 85 y cant o lefelau rhagnodi generig. Caiff rhai cyffuriau ag enw brand (fel Ventolin a Zapain) eu rhagnodi mewn symiau mawr ac maent yn rhatach na chyffuriau cyfatebol generig ar hyn o bryd. Yn dibynnu ar y cymysgedd o achosion efallai y bydd gan bractisau meddygon teulu fwy neu lai o botensial i gyflawni arbedion yn y maes hwn.</p> <p>Er mwyn lleihau effaith amrywiad, datblygwyd basged o gyffuriau cyffredin a ragnodir â chyffuriau cyfatebol generig er mwyn nodi arbedion y gellir eu cyflawni drwy wella prosesau rhagnodi generig.</p> <p>Cyfrifwyd perfformiad ar sail ymddygiad rhagnodi rhwng mis Mawrth 2013 a mis Mai 2013 a allosodwyd am flwyddyn. Yna caiff arbedion eu seilio ar y gwahaniaeth mewn pris rhwng y cyffur generig a'r cyffur patent am y cyfnod hwnnw.</p>
Cyffuriau y nodir eu bod yn llai addas i'w rhagnodi	<p>Mae'r arbedion yn seiliedig ar haneru cyfanswm y gwariant, gan gydnabod yr ymdrech barhaus a'r rhaglen addysg y gall fod eu hangen i newid arferion rhagnodwyr unigol.</p>
Basged gyffuriau nas argymhellir NICE	<p>Mae'r arbedion yn seiliedig ar haneru cyfanswm y gwariant, gan gydnabod yr ymdrech barhaus a'r rhaglen addysg y gall fod eu hangen i newid arferion rhagnodwyr unigol.</p>
